# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 17EG MAWRTH, 2022**

NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10.00 y.b.

Lleoliad

**Yn Rhithiol - Zoom**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.
Bydd recordiad ar gael yn dilyn y cyfarfod. https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**SionedMaiJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 10 Mawrth 2022)

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Menna Baines
Annwen Daniels
Gareth Tudor Morris Jones
Dafydd Owen
Linda Morgan
Beca Brown
Alan Jones Evans
Linda Ann Jones
Berwyn Parry Jones
Dewi Wyn Roberts

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Angela Russell
Sedd Wag
Beth Lawton
Sedd Wag

## Llais Gwynedd (1)

Y Cynghorydd Anwen J. Davies

## Aelod Unigol (1)

Sedd Wag

## Propel (1)

Y Cynghorydd Peter Read

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## Aelodau Eraill a Wahoddwyd

Y Cynghorwyr

Craig ab Iago
Dilwyn Morgan
Dafydd Meurig

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 3 Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

## 5. GWASANAETH IECHYD MEDDWL GWYNEDD 10 - 15

I ddarparu trosolwg o waith Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd a'r datblygiadau ar gyfer 2022-23.

## 6. CYNLLUN GWEITHREDU TAI 16 - 23

I ddarparu diweddariad ar weithrediad y Cynllun Gweithredu Tai, Adran Tai ac Eiddo.

## 7. STRATEGAETH FAETHU YNG NGWYNEDD 24 - 58

I dderbyn diweddariad ar y Strategaeth Faethu yng Ngwynedd yng nghyd-destun y Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

# PWYLLGOR CRAFFU GOFAL DYDD IAU, 3 CHWEFROR 2022

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Angela Russell (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Menna Baines, Beca Brown, Anwen J. Davies, Alan Jones Evans, Richard Medwyn Hughes, Gareth Tudor Morris Jones, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Linda Morgan, Beth Lawton a Dafydd Owen.

**Swyddogion yn bresennol:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Llywela Haf Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 5:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant), Mari Wynne Jones (Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion) a Matthew Hawes (Arweinydd Therapi Galwedigaethol).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 6:**
Y Cynghorydd Dafydd Meurig (Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant), Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant), Rhion Glyn (Pennaeth Cynorthwyol - Oedolion, Iechyd a Llesiant) a Hawis M. Jones (Rheolwr Tîm Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyniwyd datganiadau o fuddiant gan y Cynghorwyr Menna Baines ac Eryl Jones-Williams ar gyfer eitem 5, gan eu bod wedi ymwneud a'r Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol yn eu bywydau personol. Gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, 2021 fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD CYNNYDD: GWASANAETH THERAPI GALWEDIGAETHOL**

Derbyniwyd cyflwyniad gan yr Arweinydd Therapi Galwedigaethol am y gwaith Symud a Thrin o fewn yr Uned Adnoddau Cymunedol. Manylwyd am y tîm newydd sy'n cynnwys pedwar Therapydd Galwedigaethol ac un Nyrs Gofrestredig; bydd y tîm hwn yn ymwneud yn benodol a'r gwaith Symud a Thrin o fewn y Sir.

Ymhelaethwyd ar bwysigrwydd y gwaith Symud a Thrin, sy'n lleihau'r risg o anafiadau, lleihau derbyniadau i'r ysbytai a lleihau'r amser sy'n cael ei dreulio yn yr ysbytai.

Ychwanegwyd fod y maes yn hanfodol i helpu unigolion i fyw mor annibynnol â phosib gan gadw eu hurddas. Un elfen o waith yr aseswyr Symud a Thrin bydd gofal sengl. Trwy asesu a darparu offer arbenigol ac ymyrraeth amserol gall olygu fod un person yn gallu darparu gofal yn ddiogel. Mae hyn yn rhyddhau capasiti gofalwyr ac yn darparu gofal addas mewn ffordd cost effeithiol.

Adroddodd yr Arweinydd Therapi Galwedigaethol y byddai yn rhannu copi dwyieithog o'r cyflwyniad gyda'r aelodau. Gwahoddwyd yr aelodau i ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am yr adroddiad a'r cyflwyniad oedd yn rhoi gwell darlun o'r gwelliannau y mae'r gwasanaeth Therapi Galwedigaethol a'r tîm Symud a Thin wedi ei wneud i fywydau trigolion Gwynedd.
- Cwestiynwyd sut y byddai trigolion yn y gymdeithas yn dod i wybod am waith y tîm ac os oedd cynlluniau i ymgysylltu a'r cyhoedd er mwyn eu gwneud yn ymwybodol o'r adnodd hwn. Awgrymwyd y gellir rhoi cyflwyniad i fudiadau fel merched y wawr neu sefydliad y merched (WI) fyddai wedyn yn lledaenu'r neges.
- Awgrymwyd y byddai o fudd darparu'r cyflwyniad hwn i holl Gynghorwyr y Sir.
- Gofynnwyd am eglurhad pellach ynglŷn â'r rhestrau aros sy'n dal i fodoli am asesiadau mewn rhai ardaloedd a holwyd faint yw'r rhestrau aros ac os oes modd symud Therapyddion Galwedigaethol rhwng ardaloedd. Cwestiynwyd os ydi'r gwasanaeth yn gyson ar draws y Sir.
- Holwyd os oedd cynlluniau i gyflogi rhagor o Therapyddion Galwedigaethol a gofynnwyd am fanylder pellach ynghylch pwynt 3.7 o'r adroddiad sy'n cyfeirio at swyddi yn y Gwasanaeth Plant a'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu.
- Canmolwyd y penodiad o bedwar Therapydd Galwedigaethol a'r Nyrs Gofrestredig i sefydlu'r gwasanaeth Symud a Thrin a diolchwyd am eu gwaith o gefnogi trigolion Gwynedd mewn modd urddasol. Ychwanegwyd ei bod yn braf cael gweld faint o waith sydd wedi ei gyflawni gan y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol dros y flwyddyn ddiwethaf. Diolchwyd yn benodol i'r Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant, yr Uwch Reolwr Gwasanaethau Oedolion a'r Arweinydd Therapi Galwedigaethol am eu gwaith.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Fod y gwasanaeth yn ceisio lledaenu'r neges am fodolaeth y gwasanaeth drwy aelodau o'r Timau Adnoddau Cymunedol (Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion Galwedigaethol, nyrsys ardal a meddygon teulu), yn ogystal â cheisio meddwl am ffyrdd gwahanol i gysylltu ag unigolion fyddai'n cael budd o'r gwasanaeth. Ychwanegodd yr Arweinydd Therapydd Galwedigaethol y byddai'n fodlon darparu cyflwyniad ac yn awyddus i bobl wybod fod y gwasanaeth hwn ar gael. Byddai'n hapus i gydweithio efo'r Aelodau a derbyn eu syniadau am sut i gysylltu efo'r cymunedau i ledaenu'r neges. Adroddodd fod y tîm yn weddol newydd a bod bwriad i rannu'r cyflwyniad efo mudiadau'r trydydd sector a gwasanaethau eraill, a'i fod yn awyddus i gynnwys gwybodaeth yn Newyddlen Gwynedd.
- Cadarnhawyd fod posib symud staff rhwng ardaloedd, mae hyn eisoes yn digwydd; ond mae ceisio cael y staff cywir yn yr ardaloedd sydd eu hangen ar yr amser cywir yn heriol. Nodwyd fod y tîm wedi gorfod blaenoriaethu'r achosion fwyaf brys a dwys dros y flwyddyn ddiwethaf. Eglurwyd fod poblogaeth Gwynedd yn golygu bod rhai ardaloedd yn cael mwy o gyfeiriadau na'i gilydd a gall symud staff i gwrdd â'r gofynion fel maent yn codi achosi problemau a phrinder mewn ardaloedd eraill.

Ychwanegwyd fod yr Adran yn ymwybodol o'r heriau ac yn ceisio eu datrys; nodwyd bod cyd-weithio yn digwydd efo'r Brifysgol drwy ddarparu lleoliadau i fyfyrwyr ac yn ariannu hyfforddai i gwblhau'r cwrs gradd Therapi Galwedigaethol. Cadarnhawyd fod y gwasanaeth therapi galwedigaethol wedi ei staffio yn llawn ers dechrau'r flwyddyn ond fod y cyfnod ble roedd swyddi gwag yn bodoli wedi creu llwyth gwaith sydd angen ei daclo. Y gobaith yw y gall y swyddogion newydd gefnogi gyda lleihau'r rhestrau aros.

- Mewn ymateb i'r ymholiad os yw pum swyddog yn ddigon i gefnogi pobl Gwynedd, esboniodd yr Arweinydd Therapi Galwedigaethol bod y swyddogion Symud a Thrin yn swyddi newydd, arbenigol i ategu'r tîm o Therapyddion Galwedigaethol sydd eisoes yn bodoli o fewn yr Adran Oedolion. Eglurwyd fod y swyddi Anabledd Dysgu a Phlant yn ychwanegol i'r swyddi o fewn y tîm Symud a Thrin ac yn ychwanegol i'r swyddi Therapyddion Gweledigaethol sydd eisoes o fewn yr Adran Oedolion. Rhagwelir mewn tair blynedd y bydd tri swyddog cymwysedig arall y gellir eu croesawu i'r gwasanaeth. Mae'r rhain yn hyfforddeion Therapi Galwedigaethol sydd ar gyfnodau amrywiol o gwblhau eu graddau. Ychwanegwyd y byddai'n ddymunol cael rhagor o staff ond bod rhaid bod yn ymarferol a realistig efo'r adnoddau. Er hyn, mae gwaith yn digwydd i geisio pwyso a mesur y galw a cheisio rhagweld pa sgiliau ac arbenigedd fydd ei angen i'r dyfodol pan fydd staff yn gadael h.y. ystyried pa swyddi fydd angen eu llenwi i gyfarch yr anghenion.

Ychwanegwyd na fyddai'r Gwasanaeth yn y sefyllfa y mae ynddo heddiw oni bai am ymyrraeth y Pwyllgor hwn 12-18 mis yn ôl i gael adnodd ychwanegol i sefydlu'r tîm Symud a Thrin. Galluogai hyn y Gwasanaeth i helpu pobl ar yr adeg gywir a bod bellach potensial i symud ymlaen a'r gwaith a chyflawni mwy dros drigolion Gwynedd. Nodwyd ei bod yn parhau i fod yn ddyddiau cynnar ond fod y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol mewn gwell sefyllfa nag yr oedd 12 mis yn ôl a gobeithir gallu adrodd ar lwyddiannau pellach y tîm i'r Pwyllgor hwn mewn blwyddyn arall.

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad oedd yn darparu diweddariad ar y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol.**

## 6. ASESIAD ANGHENION POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU

Cyflwynwyd yr adroddiad Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru gan nodi fod yr asesiad anghenion yn cael ei lunio yn ofynnol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Adroddodd y Rheolwr Tîm Prosiectau Oedolion, Iechyd a Llesiant fod cais wedi ei wneud i ohirio'r gwaith hwn; credwyd nad oedd yn amserol i'w gwblhau yn ystod cyfnod prysur y pandemig ond roedd y Llywodraeth yn awyddus i'r gwaith fynd yn ei flaen. Ychwanegwyd ei bod wedi bod yn heriol cwblhau'r gwaith o fewn yr amserlen. Nodwyd fod yr Uned wedi ymrwymo i wneud gwaith mwy manwl ar anghenion pobl Gwynedd gan fod yr adroddiad hwn yn un cyffredinol ar draws Gogledd Cymru; credwyd y bydd llawer o werth i'r asesiad lleol.

Ychwanegwyd y bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet ar y 15$^{fed}$ o Chwefror ac yna i gyfarfod y Cyngor Llawn ar y 3$^{ydd}$ o Fawrth yn dilyn derbyn cymeradwyaeth y Cabinet. Yma ceir sylfaen yr adroddiad sy'n dangos yr hyn mae'r cyhoedd wedi ei nodi am eu hanghenion ynghyd a barn swyddogion proffesiynol a mudiadau trydydd sector. Mae'r asesiad yn seiliedig ar nifer o ymarferion ymgynghori ar

draws y Gogledd dros y tair blynedd ddiwethaf ac o holiadur oedd yn agored i unigolion a phartneriaid ei gwblhau.

Dymuna'r Rheolwr Tîm Prosiectau Oedolion dderbyn barn y Pwyllgor ar ba elfennau i ganolbwyntio arnynt yn yr asesiad Gwynedd; disgwylir y bydd yr Adroddiad Asesiad Anghenion Poblogaeth Gwynedd yn barod ym mis Medi 2022. Ychwanegwyd fod croeso i'r Aelodau gyflwyno unrhyw adborth ar ôl y cyfarfod yn ogystal. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Diolchwyd am adroddiad cynhwysfawr a gonest.
- Gofynnwyd sut y bwriedir gweithio efo'r drydedd sector.
- Mynegwyd fod llawer o ganfyddiadau negyddol yn yr asesiad sy'n dangos anfodlonrwydd; cwestiynwyd os yw'n rhoi darlun realistig.
- Gwnaethpwyd sylw fod yr asesiad yn cyfeirio at beth sydd angen ei wella ond bod dim cyfeiriad at yr amserlen na phryd fydd y gwelliannau yn cael eu cyflawni.
- Holwyd am fwy o fanylion ynghylch iechyd meddwl yn enwedig i blant a gofynnwyd pa mor hir ydi'r rhestrau aros. Gofynnwyd a all y Cyngor wneud mwy i helpu'r sefyllfa iechyd meddwl drwy bamffledi neu drwy hyrwyddo ble mae'r cymorth.
- Gofynnwyd i ba raddau mae cydweithio yn digwydd rhwng Awdurdodau Lleol, y sector Gofal a'r Bwrdd Iechyd. Ychwanegwyd fod yr adroddiad yn cyfeirio at ddiffyg cydweithio a chydlynu, cwestiynwyd faint o sylw mae hyn yn ei gael gan yr Awdurdod.
- Gwnaethpwyd sylw fod y pandemig wedi tanlinellu'r diffygion yn y berthynas rhwng y Bwrdd Iechyd a Gofal. Holwyd sut y gall yr asesiad yma gael ei ddefnyddio i gynyddu'r pwysau gwleidyddol ar y Llywodraeth i gyfarch effaith diffyg adnoddau Llywodraeth Leol ar y Bwrdd Iechyd.
- Cyfeiriwyd at Bwyllgor Henoed Gwynedd ddaeth i ben dros gyfnod y pandemig. Teimlwyd fod y cyswllt efo'r henoed a'r mudiadau cefnogol wedi ei golli. Credwyd fod ymgynghori yn holl bwysig i wybod beth yw pryderon unigolion.

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod a chwestiynau gan aelodau, nodwyd:-

- Bod angen cydweithio'n well efo'r drydedd sector; rhaid adnabod beth yw'r ffordd orau i gyflawni hynny drwy drafod efo'r mudiadau. Mynegwyd bod angen cytuno ar ffyrdd gwahanol i ddarparu gwasanaethau sydd yn fwy penodol i gyfarch anghenion a chefnogi pobl.
- Bod angen gwirio materion yn lleol o fewn y Sir er mwyn cael y darlun llawn a perthnasol i Wynedd. Gall hyn ddangos ymatebion gwahanol. Pwysleisiwyd fod angen edrych ar y materion craidd sy'n gallu golygu fod angen trawsnewid gwasanaeth; ychwanegwyd fod hyn eisoes yn digwydd efo rhai elfennau o wasanaethau o fewn yr Adran.
- Y bydd yr asesiad hwn yn bwydo fewn i'r Cynllun Ardal ar gyfer Gogledd Cymru wedi iddo gael ei gymeradwyo gan Gynghorau'r Gogledd. Yna, bydd gwaith yn cychwyn ynghylch sut i gyfarch yr anghenion a'r materion a godwyd.
- Bod cydweithio yn digwydd yn y maes iechyd meddwl; bydd cyflwyniad yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor hwn a gynhelir ar yr 17eg o Fawrth i roi mwy o fanylion am y datblygiadau. Yn ogystal nodwyd fod gwaith wedi cychwyn i edrych mewn manylder ar rai o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu, bydd ymrwymiad i'w hadolygu. Yn y cyfamser gwerthfawrogir awgrymiadau Aelodau ar

sut i wella'r sefyllfa yn y tymor byr. Ychwanegwyd fod angen edrych yn fanwl ar y maes iechyd meddwl a'i ail siapio i gwrdd ag anghenion y dyfodol.

- Bod cydweithio da iawn yn digwydd efo'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol a bod enghreifftiau da i'w gweld o'r cydweithio hyn; nodwyd fod y datblygiad Penrhos yn un esiampl. Nodwyd fod newid systemau a diwylliant yn anodd o fewn sefydliad fel y Cyngor ond fod ceisio cydlynu newidiadau ar y cyd efo'r Bwrdd Iechyd yn heriol iawn. Credwyd ei bod yn mynd i gymryd amser i weithredu newidiadau yn enwedig pan mae prosesau a threfniadau wedi bodoli ers cryn dipyn o amser. Adroddwyd fod pob ymdrech yn cael ei wneud ac edrychir ar gynlluniau sy'n gwneud gwahaniaeth, cydnabyddwyd fod gwaith i'w wneud yma. Ychwanegwyd drwy greu'r asesiad anghenion ar y cyd mae'n rhoi cyfle i adnabod problemau ar y cyd a chyfle i gydweithio ar yr atebion.
- Bod angen targedu a chanolbwyntio ar feysydd penodol. Nodwyd fod y Pwyllgor heddiw wedi crybwyll materion sy'n broblemus fel rhestrau aros maith am asesiadau iechyd meddwl i blant a'r broblem o ryddhau gwlâu yn yr Ysbytai. Bydd angen gwneud gwaith mwy manwl ar y materion hyn ac yna adrodd yn ôl i'r Llywodraeth drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn dangos beth yw'r sefyllfa yng Ngwynedd.
- Ei bod yn bwysig darganfod problemau bychain cyn iddynt gynyddu. Golyga hyn fod derbyn gwybodaeth yn holl bwysig; elfen arall sydd yr un mor bwysig yw pa ddefnydd sy'n cael ei wneud o wybodaeth sydd eisoes yn bodoli. Awgrymwyd fod Aelodau efo mynediad i wybodaeth ddefnyddiol a bod angen rhannu'r wybodaeth yma yn ogystal â gwella'r cyswllt efo darparwyr gwasanaeth. Credwyd nad oedd angen gwneud llawer mwy o ymarferion ymgysylltu ond yn hytrach tynnu fewn a defnyddio'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd eisoes yn bodoli. Nodwyd y byddai'r tîm adfywio yn siarad efo Cynghorau Cymuned ac yn cymryd cyfleoedd i fynychu cyfarfodydd er mwyn derbyn mewnbwn hollbwysig.

Mewn ymateb i sylwi ynghylch egwyddorion ymgynghori a chydraddoldeb, adroddwyd y bydd ystyriaeth yn cael ei roi i'r dyletswydd economaidd gymdeithasol wrth gwblhau'r gwaith manwl ar Wynedd. Adroddwyd y bydd mwy o sylw yn cael ei roi yn adroddiad Gwynedd i'r elfennau hyn a cydnabyddwyd pwysigrwydd cyfarch anghenion y grŵp yma.

Mewn ymateb i gwestiwn os oedd cofnod o ddiolchiadau neu werthfawrogiad gan y cyhoedd pan maent yn hapus efo'r gwasanaeth cafodd ei dderbyn, eglurwyd bod y wybodaeth yma yn bodoli. Ychwanegwyd fod angen edrych ar sut i hysbysebu llwyddiannau hyn.

Ychwanegwyd fod y sampl o Wynedd yn un weddol fach; 50 o'r atebion ddaeth o Wynedd. Roedd hyn yn gyfystyr a 14% o gysylltiad yr asesiad. Ategwyd mai darn o waith cyffredinol oedd hwn felly bydd angen ystyried pa ddefnydd fydd yn cael ei wneud o'r canfyddiadau yn lleol, fydd yn ddibynnol ar adnabyddiaeth yr ardal. I gloi nodwyd fod asesu ar lefel unigol yn hanfodol gan gysidro os yw'r hyn sy'n bwysig i'r unigolyn yn cael ei gyflawni, ac os ddim, pam.

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn yr adroddiad, gan nodi'r sylwadau a gyflwynwyd yn ystod y cyfarfod.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a daeth i ben am 12:15

**CADEIRYDD**

# Eitem 5

**ADRODDIAD I:** **PWYLLGOR CRAFFU GOFAL CYNGOR GWYNEDD**

**DYDDIAD:** **Mawrth 2022**

**ADRODDIAD GAN:** **Y CYNGHORYDD DAFYDD MEURIG**

**(SWYDDOG CEFNOGI – MANNON EMYR TRAPPE)**

**PWNC:** **DIWEDDARIAD AR WASANAETH IECHYD MEDDWL GWYNEDD**

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

Rhoi trosolwg i aelodau o waith Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd a'r datblygiadau ar gyfer 2022-23

## 2. TROSOLWG O'R GWASANAETH

- Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl yn dîm integredig amlddisgyblaethol ers 1996.
- Er mai'r Bwrdd Iechyd syn arwain y Gwasanaeth, mae'n bartneriaeth cadarn sydd wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd.
- Gweithio i'r Mesur Iechyd Meddwl, 2010 sy'n rhoi dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gofal addas yn ei le sy'n canolbwyntio ar anghenion iechyd meddwl unigolion.
- Mae'r gwaith yn cael ei arwain gan y Strategaeth Llaw yn Llaw at Iechyd Meddwl, sef strategaeth Llywodraeth Cymru i wella iechyd meddwl a'r ddarpariaeth sydd ar gael i gefnogi unigolion ar draws y wlad.
- Mae'r gwasanaeth wedi ei rannu i gynnig cefnogaeth o fewn gwasanaethau cynradd i achosion lefel isel a'r gwasanaethau eilradd i achosion mwy dwys.
- Bydd cyfeiriadau'n cael eu derbyn gan feddygon teulu a bydd pob cyfeiriad yn cael ei graffu'n ddyddiol (Llun i Gwener) i weld os oes gwybodaeth ddigonol i wneud penderfyniad os yw'n addas i dderbyn asesiad (hynny yw, bod tystiolaeth o salwch meddwl neu effaith ar les meddyliol)
- Mae'r mesur yn nodi bod asesiadau safonol yn cael eu cwblhau o fewn 28 diwrnod, rhai brys o fewn 48 awr a bydd ymweliadau crisis yn derbyn ymateb o fewn 4 awr.
- Byddwn hefyd yn cyfeirio rhai unigolion ymlaen i asiantaethau eraill all gynnig cefnogaeth fwy penodol (e.e. Cruse – Cwnsela profedigaeth, RASAC – Rape and Sexual Abuse Support Centre, ayyb)
- Gweithwyr yw prif adnodd y gwasanaeth hefo gweithwyr yn cynnig therapi a chefnogaeth i unigolion i oresgyn neu i ymdopi hefo eu salwch.
- Mae cyllideb y gwasanaeth yn gymharol fychan o £3.6 miliwn.

- Rydym yn comisiynu asiantaethau trydydd sector i ddiwallu anghenon unigolion o fewn y gymuned. Er enghraifft, Canolfan Felin Fach yn Pwllheli, a Canolfan Tan y Maen yn Blaenau Ffestiniog
- Gan mai'r Bwrdd Iechyd sy'n arwain y Gwasanaeth, mae ffocws cryf ar y model meddygol - hynny yw diagnosis a meddyginiaeth.
- Ein rôl ni fel awdurdod lleol yw canolbwyntio ar yr elfennau cymdeithasol a hefyd i arwain ar y gwaith o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.
- Mae'r Awdurdod hefyd yn darparu Gweithwyr Cefnogol (gyda cyfraniad ariannol i'w cyflogi gan Iechyd) er mwyn gweithio'n fwy dwys hefo unigolion ar gynlluniau gofal a thriniaeth.

## 3. Y TÎM

Swyddi sydd yn gyflogedig gan Cyngor Gwynedd:

- 2 Arweinydd Ardal
- 12.5 Gweithiwr Cymdeithasol
- Mae 7 o'r gweithwyr cymdeithasol uchod hefyd yn AMHP (Approved Mental Health Practitioner) o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae 2 AMHP ychwanegol yn gweithio mewn timau eraill o fewn y maes oedolion)
- 9 Gweithiwr Cefnogol
- 0.5 Swyddog Llesiant

Swyddi sydd yn gyflogedig gan y Bwrdd Iechyd:

- 16 Nyrsys Seiciatrig Cymunedol
- 3 Therapydd Galwedigaethol
- 5 seicolegydd
- Ymgynghorwyr Seiciatrig

Mae'r timau wedi eu rhannu i ardal Arfon a De Gwynedd. Mae tîm Arfon wedi eu lleoli o fewn Uned Hergest, Bangor a Tîm De Gwynedd wedi ei leoli yn Ysbyty Alltwen, Tremadog hefo swyddfa 'lloeren' yn Nolgellau.

## 4. PWRPAS Y GWASNAETH

- Mae'r gwasanaeth yn darparu gofal iechyd a chymdeithasol priodol o fewn y gymuned sy’n canolbwyntio ar adferiad i oedolion ag anghenion iechyd meddwl. Yn bennaf, os yw’r lefel anghenion yn caniatáu, y bwriad yw darparu cefnogaeth o fewn y gymuned o fewn y gwasanaeth cynradd, gyda darpariaeth gofal ychwanegol, eilaidd ac arbenigol i ddiwallu anghenion difrifol a/neu gymhleth pan fo angen.
- Mae’r gwasanaeth yn darparu gofal sy’n seiliedig ar dystiolaeth ac yn unol â gofynion Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Cymru ~ ‘Law yn Llaw at Iechyd Meddwl’ a’r Mesur Iechyd Meddwl.
- Mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i gyd weithio ar Strategaeth Iechyd Meddwl Gogledd Cymru i:

1. Sicrhau bod tystiolaeth seicolegol wrth wraidd y gwasanaethau cymunedol
2. Datblygu dulliau integredig/cydweithredol o reoli problemau iechyd meddwl cyffredin a chefnogi hunanreolaeth trwy addasu ffordd o fyw.
3. Datblygu systemau i sicrhau bod darpariaeth amserol i asesu a thrin seicosis.
4. Datblygu system i ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal sydd wrth wraidd gofal cleifion

- Mae gwasanaethau’n hygyrch ac yn berthnasol, yn wrth-wahaniaethol, yn parchu gwerthoedd diwylliannol ac yn hawdd eu defnyddio i gleifion a gofalwyr. Bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn ceisio cynorthwyo i leihau’r stigma sy’n gysylltiedig â gofal iechyd meddwl a sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu yn y modd lleiaf cyfyngol a phosibl.
- Nod y gwasanaeth yw hybu iechyd a lles, hybu adferiad unigol, cynorthwyo unigolion i gael galwedigaeth ystyrlon a chynhwysiant cymdeithasol. Bydd yn ymgorffori’r elfen o ddewis ac yn cefnogi unigolion i ymgysylltu â’u cymunedau lleol. Byddwn yn cefnogi gwydnwch a llesiant drwy rwydweithio cymunedol gan sicrhau bod yr unigolyn yn cymryd perchnogaeth o’u cynlluniau gofal a'r hyn y maent yn dymuno’i gyflawni. Y nod cyffredinol yw gwella ansawdd bywyd yr unigolyn, gyda blaenoriaeth ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae’r Swyddog Llesiant yn arwain ar y Bartneriaeth Dysgu Iechyd Meddwl. Mae llesiant yn berthnasol i bawb ac felly mae’r Bartneriaeth yn draws adrannol ac aml asiantaethol. Mae’r Swyddog wedi datblygu llyfryn ‘Edrych ar ôl fy hun’ sydd wedi ei selio ar y 5 ffordd at Lês. Mae’r llyfryn yn nodi pa adnoddau sydd o gael o fewn ein Sir i gefnogi unigolion. Mae’r llyfryn wedi ei rannu o fewn meddygfeydd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden o fewn y Sir ac mae hefyd ar gael trwy wefan y Cyngor. www.gwynedd.llyw.cymru/edrycharolfyhun

## 5. Y DDEDDF IECHYD MEDDWL 1983

- Fel y nodwyd uchod, mae 9 AMHP yn gyflogedig yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae’n ofynnol bod yr awdurdod yn cyflogi AMHP i ymgymryd ag asesiadau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Mae recriwtio a chadw AMHPs wedi profi yn dasg anodd ers rhai blynyddoedd. Rydym yn gwneud ymdrech i ddatblygu a hyfforddi ein staff ein hunain.
- Mae’r gwaith yma wedi bod yn heriol ers nifer o flynyddoedd oherwydd diffyg argaeledd meddygon arbenigol (angen bod wedi eu hawdurdodi o dan a.12 y Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 i asesu) a hefyd yr argaeledd o welyau yn lleol. Mae sawl enghraifft ble mae cleifion wedi gorfod cael eu cludo i ysbytai iechyd meddwl yn bell o’u cynefin. Mae’r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd ac o fewn awdurdodau eraill wedi codi’r mater yma gyda Bwrdd Iechyd ar sawl achlysur.
- Mae cludo unigolion i’r ysbyty hefyd yn heriol oherwydd diffyg argaeledd gwasanaeth ambiwlans.
- Mae’r Ddeddf Iechyd Meddwl yn rhoi dyletswydd ôl ofal o dan a.117. Mae hyn yn golygu bod unrhyw un sydd wedi eu cadw o dan adrannau a.3, 37, 45A, 47 neu 48 yn gymwys i dderbyn gofal di-dâl.
- Bu 126 asesiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn ystod 2021.

## 6. LLWYTH GWAITH

- Yn ystod 2021, bu i’r Gwasanaeth dderbyn 4679 cyfeiriad. Hyn yn gyfartaledd o 390 cyfeirid pob mis.
- Mae’r mwyafrif o’r cyfeiriadau hyn yn cael eu hasesu cyn bod penderfyniad ar sut i gynorthwyo’r unigolyn. Mae’n anodd iawn mesur y galw ond mae 1 o bob 4 ohonom yn dioddef rhyw ffurf o salwch meddwl yn ystod eu bywydau. Gan fod y boblogaeth yn tyfu, mae’r galw am wasanaethau yn anorfod yn mynd i gynyddu. Nid oes modd dyfalu difrifoldeb achosion na’r mewnbwn gwasanaeth sydd ei angen ymlaen llaw.
- Mae 589 unigolyn yn agored i’r Gwasanaeth Eilradd.
- Mae 492 achos yn agored i’r Gwasanaeth Cynradd.
- 74 achos yn agored i Seicoleg.
- Mae grwpiau rheoli pryder, sgiliau bywyd a grwpiau sy’n cefnogi unigolion hefo anhwylder personoliaeth ar draws y Sir
- Mae 25 unigolyn yn aros i reolwr gofal gael ei ddyrannu iddynt yn Ne Gwynedd a 33 yn Arfon. Mae’r rhestrau aros yn ganlyniad i salwch a swyddi gwag o fewn y gwasanaeth.

- Mae'r Gweithwyr Cymdeithasol yn asesu gofalwyr Iechyd Meddwl i weld os oes modd cynnig cefnogaeth ac mae dau weithiwr cefnogol yn cefnogi gofalwyr drwy gynnig cyfarfodydd un i un a/ neu mewn grwp.
- Mae'r Gweithwyr Cefnogol yn cefnogi 3 grŵp yn ardal Arfon, sef grwpiau cymdeithasu a grŵp garddio. Nid oes grŵp yn Ne Gwynedd ar hyn o bryd.
- Mae'r Gwasanaeth yn comisiynu lleoliadau gofal a llety cefnogol i unigolion. Mae nifer o'r lleoliadau hyn yn allsirol.

## 7. TREFN LLYWODRAETHU

- Bydd pob gwasanaeth yn adrodd i'r Bwrdd Bartneriaeth Llaw yn Llaw at Iechyd Meddwl sydd yna'n bwydo i Lywodraeth Cymru.
- Mae adroddiad wythnosol ar berfformiad y Gwasanaeth o ran nifer o unigolion sydd hefo Cynllun Gofal Thriniaeth (86% ym mis Ionawr 2022), nifer sydd wedi eu hasesu o fewn y 28 diwrnod (57.9% ym mis Ionawr) ac yn derbyn ymyrraeth o fewn 28 diwrnod (63%).
- Mae salwch tymor hir a swyddi gwag yn cyfrannu at y perfformiad uchod. Byddai yn deg dweud y dylid anelu i wella lefel y perfformiad presennol.
- Mae LIT (Local Implementation Team) wedi eu sefydlu ar draws y rhanbarth ac mae Gwynedd hefo LIT ar y cyd â Môn. Pwrpas y LIT yw dod a'r partneriaid allweddol ynghyd er mwyn trafod anghenion lleol a chynllunio ar gyfer sut mae modd diwallu'r anghenion hynny. datblygiadau. Yn anffodus, oherwydd y pwysau ar wasanaethau, nid yw'r LIT wedi cyfarfod ers y cyfnod Covid-19 ond mae cynlluniau i atgyfodi'r cyfarfod hwn o fewn y misoedd nesaf.

## 8. DATBLYGIADAU

- ICAN - Mae cynllun ICAN wedi ei ddatblygu gan y Bwrdd Iechyd ond hefo cefnogaeth yr awdurdodau lleol maent wedi cael mynediad at y gronfa trawsffurfio Iechyd Meddwl sy'n cefnogi'r cynllun. Nod datblygu hybiau cymunedol ICAN ar draws y Rhanbarth yw gwella argaeledd, ymwybyddiaeth o a chysylltiad â'r trydydd sector a gwasanaethau cymorth a llesiant holistig eraill yn y gymuned. Gall y meddygon teulu gyfeirio at yr hybiau ac mae modd i'r hybiau gyfeirio at y Gwasanaeth iechyd Meddwl. Bwriad yr hybiau yw cefnogi unigolion hefo anghenion iechyd meddwl is a chynorthwyo i gynnal adferiad. Mae hybiau wedi agor ym Mhwllheli, Blaenau Ffestiniog a Caernarfon, hefo lleoliadau lloeren ar draws y Sir.
- Prosiect Iechyd Meddwl **-** Mae'r Adran Oedolion wedi comisiynu ymgynghorydd i arwain ar brosiect fydd yn craffu'r adnoddau o fewn y ddarpariaeth gynradd. Ar hyn o bryd, nid oes gan y Cyngor aelodau o staff yn ymwneud a'r gwasanaeth cynradd. Ein bwriad yw adolygu ein cyfraniad i'r

gwasanaeth a gweld os oes modd i ni fod yn dyrannu adnoddau i ganolbwyntio ar waith ataliol a chefnogi llesiant. Ymhen ychydig fisoedd, pan fydd yr adolygiad yma wedi ei gwblhau, efallai y byddai yn briodol i adrodd ar ganfyddiadau'r gwaith yma i'r Pwyllgor Craffu Gofal.

- Mae cais wedi ei wneud ar y cyd hefo'r Rheolwr Tîm Llesiant i'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gyllid i wneud y swydd Swyddog Llesiant yn llawn amser ar sail barhaol. Bydd hyn yn galluogi'r swyddog i gael mewnbwn i'r gwaith ataliol a hyrwyddo llesiant.

## 9. EFFAITH COVID

- Ar gychwyn y pandemig Covid-19, bu i Iechyd lythyru'r meddygon teulu'n nodi na fyddai'r gwasanaeth yn derbyn cyfeiriadau newydd. Roedd pryder mawr gennym am effaith y pandemig a'r ynysu ar iechyd meddwl unigolion. Bu i ni herio'r penderfyniad yma ac fe gafodd y penderfyniad ei wyrdroi.
- Er ein bod bellach yn symud ymlaen, bu cyfnod estynedig pan nad oedd cyswllt wyneb i wyneb hefo pob unigolyn. Hyn yn golygu nad oedd modd asesu'r ffactorau/ symptomau mwy cynnil.
- Mae'n fuan i geisio asesu effaith hir dymor Covid-19 ar unigolion ond rydym yn ymwybodol ei fod wedi bod yn gyfnod hir iawn ac ynysig i sawl un.
- Mae pryder hefyd bod y cyfnod yn cael effaith ar les meddyliol plant a bod hyn am arwain at broblemau meddyliol hir dymor.
- Mae'r gallu i gysylltu ag unigolion yn rhithiol wedi bod yn llwyddiant hefo rhai unigolion. Mae nifer o ddefnyddwyr gwasanaeth iau yn gyfforddus â thechnoleg ac rydym wedi gweld bod hyn yn gweithio'n dda iddynt.
- Mae gweithio'n rhithiol hefyd wedi cynnig gwell mynediad i grwpiau i unigolion ar draws y sir. Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn ei gwneud yn anodd i sawl un gyrraedd grwpiau yn arferol ac mae hyn wedi bod yn newid positif i sawl un.
- Er bod nifer o ffactorau positif wedi dod o'r cyfnod, mae'n bwysig nodi mai cefnogaeth wyneb i wyneb yw'r ffordd fwyaf effeithiol i gefnogi unigolion hefo problemau iechyd meddwl.
- Mae'n bryder nad yw pawb yn cael apwyntiad wyneb i wyneb hefo eu meddyg teulu. Mae ymchwil yn dangos bod unigolion yn llawer mwy tebygol o gyflwyno i'w meddyg teulu hefo problem gorfforol yn y lle cyntaf ac yn rhannu unrhyw bryder am eu hiechyd meddwl ar y ffordd allan o'r feddygfa - 'a gyda llaw.....'
- Er na ellir maintioli cynnydd tebygol yn y galw am gefnogaeth iechyd meddwl arbenigol yn sgil y pandemig, mae'n bur sicr mai cynnydd a welwn a chynnydd all fod yn un hirdymor. Byddwn yn gweld yr effaith am flynyddoedd i ddod a bydd angen adeiladu ar ac addasu'r gwasanaeth i ymdopi hefo hynny.

Eitem 6

# ADRODDIAD I'R PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Mawrth 17, 2022 |
| **Teitl:** | Diweddariad ar y Cynllun Gweithredu Tai |
| **Pwrpas:** | Diweddaru'r Pwyllgor ar weithrediad y Cynllun Gweithredu Tai |
| **Swyddog cyswllt:** | Carys Fôn Williams, Pennaeth Adran Tai ac Eiddo |
| **Aelod Cabinet:** | Cyng. Craig ab Iago |

## 1. Cyflwyniad / Cefndir

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cynnig diweddariad ar rai o brif brosiectau'r Cynllun Gweithredu, gan fanylu ar yr hyn sydd wedi digwydd, ar y gweill ac wedi'i gynllunio ar gyfer y misoedd nesaf.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 15 Rhagfyr, 2020, cymeradwyodd y Cabinet **Gynllun Gweithredu Tai 2020/21-2026/27** – Cynllun gwerth £77m ac sy'n cynnwys 33 o brosiectau mewn 5 maes allweddol:

- Sicrhau fod neb yn ddigartref yng Ngwynedd
- Cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gael tenantiaeth mewn tŷ cymdeithasol
- Helpu trigolion Gwynedd i fod yn berchen ar gartref yn eu cymuned
- Tai Gwynedd yn amgylcheddol gyfeillgar
- Tai Gwynedd yn cael dylanwad cadarnhaol ar iechyd a llesiant trigolion y Sir

1.3 Nod y Cynllun Gweithredu Tai yw "Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy'n fforddiadwy ac sy'n gwella eu hansawdd bywyd".

1.4 Mae cynnydd da i'w weld ers mabwysiadu'r Cynllun ym mis Ebrill 2021:

- **89 tŷ cymdeithasol** wedi'i adeiladu
- **41 tŷ gwag** wedi dod yn ôl i ddefnydd
- **38 uned i'r digartref** wedi neu wrthi'n cael eu codi
- **13 grant prynwyr tro cyntaf** wedi'u rhoi er mwyn adnewyddu tai gwag
- **142 o grantiau addasiadau tai** wedi'u dyrannu i alluogi i bobl anabl barhau i fyw yn eu cartref

1.5 Yn ôl cyfrifiannell '*Housing Health Cost*', amcangyfrifir bod y gefnogaeth a roddwn trwy'r grantiau addasiadau tai wedi arbed **£1,227,826 i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol,** a **£9,746,668 i gymdeithas** ers 2019.

1.6 Yn sgil hyn i gyd, mae dros **1754 o bobl Gwynedd** wedi derbyn cymorth i fyw mewn tŷ yn lleol hyd yma.

## 2. Golwg ar brosiectau a meysydd unigol

| Maes/ prosiect: | Datblygu ein tai ein hunain, prynu tai preifat a phrynu tir adeiladu ar gyfer y dyfodol | Cyfeirnod | 3a, 3b, 3ff |
|---|---|---|---|
| **2.1. Cefndir** | | | |
| 2.1.1. Mae'r tri phrosiect hwn yn edrych ar gynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i bobl Gwynedd gael berchen neu rentu tŷ sy'n addas ar gyfer eu hanghenion, naill ai trwy brynu tai preifat a'u gosod ar rent canolraddol, | | | |

prynu cyn-dai cymdeithasol a'u gosod ar rent cymdeithasol (cynlluniau 2c a 3b y Cynllun Gweithredu Tai), neu brynu tiroedd ar gyfer adeiladu arnynt yn y dyfodol (cynllun 3ff y Cynllun Gweithredu Tai).

2.1.2. O weithredu'r cynlluniau prynu ac adeiladu tai yn llwyddiannus, ar ddiwedd cyfnod 6 mlynedd y Cynllun Gweithredu Tai bydd y Cyngor wedi codi oddeutu 100 o dai ac wedi prynu 100 arall fydd ar gael i'w gosod i drigolion lleol.

2.1.3. Rhaid nodi bod y farchnad dai yn hynod gystadleuol ar hyn o bryd, ac mae'n golygu bod nifer o'r tai sydd o fewn ein cyrraedd yn ariannol yn cael eu gwerthu am bris uwch neu wedi diflannu cyn i swyddogion allu ymweld â hwy. Mae'r un yn wir am brynu tiroedd hefyd.

**2.2. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill**

2.2.1. Lansiwyd cysyniad **'Tŷ Gwynedd'**, ein gweledigaeth ar gyfer y math o dai fyddwn yn eu hadeiladu yn rhan o brosiect 3a (*Datblygu ein tai ein hunain er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i drigolion Gwynedd gystadlu yn y farchnad dai)* ym mis Chwefror.

2.2.2. Bydd pob 'Tŷ Gwynedd' yn ynni-effeithiol, yn hyblyg, yn amgylcheddol-gyfeillgar ac wedi'u hadeiladu'n gynaliadwy.

2.2.3. Mae'r cynlluniau ar gyfer y datblygiad cyntaf (ar safle hen Ysgol Babanod Coed Mawr, Bangor) wedi'i hyrwyddo ac wedi agor i ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd, fydd yn agored am fis.

2.2.4. O ran **prynu tai a phrynu tiroedd**, mae gwaith helaeth eisoes wedi digwydd y tu ôl i'r llenni hyd yma, er enghraifft mae swyddogion wedi ymweld â nifer helaeth o eiddo/tiroedd ar draws y Sir gyda golwg i'w prynu, ac yn parhau i wneud hynny.

2.2.5. Anfonwyd llythyrau at dros 300 o berchnogion tai gwag ar draws y Sir i drafod y potensial o'u gwerthu i ni, fodd bynnag dim ond 7 ymateb cadarnhaol a gafwyd bryd hynny, a dim ond un oedd yn addas i'w brynu.

2.2.6. Ynghyd â'r tŷ hwn, mae swyddogion yn edrych i brynu tua 10 o dai eraill, gyda threfniadau ymweld, ymchwil i gostau a chasglu'r wybodaeth angenrheidiol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd.

2.2.7. Yn ychwanegol at hyn, mae pryniant 3 thŷ wrthi'n mynd trwy'r camau cyfreithiol ac rydym yn gobeithio gallu cwblhau yn fuan iawn.

2.2.8. O ran **prynu tiroedd**, mae gennym diroedd yn Llanystumdwy, Llanberis a Rhoshirwaun yr ydym yn bwriadu eu datblygu, ac mae swyddogion wrthi'n trafod prynu tiroedd yn ardal Pen Llŷn a de Meirionnydd ar hyn o bryd. Ni ellir manylu arnynt eto oherwydd natur sensitif y trafodaethau.

**2.3 Beth yw'r camau nesaf**

2.3.1 **Datblygu ein tai ein hunain:** Bydd yr ymgynghoriad ar gynlluniau 'Tai Gwynedd' Coed Mawr yn cau ganol Mawrth ac, yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad, byddwn yn cyflwyno cais cynllunio llawn ddechrau'r gwanwyn.

2.3.2 **Prynu tai a thiroedd:** Bwriedir parhau chwilio am dai a thiroedd addas i'w prynu ar draws y Sir. I'r perwyl hwn, rydym yn bwriadu llythyru rhagor o berchnogion tai gwag (rhai na chysylltwyd â hwy yn yr ymarferiad diwethaf) i ofyn a fyddent yn ystyried gwerthu'r eiddo i ni.

| Gwybodaeth ychwanegol: | **Tŷ Gwynedd:** https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Tai/Cynllun-T%c5%b7-Gwynedd-%e2%80%93-Coed-Mawr-Bangor.aspx<br>   | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad** | **10** | **Nifer o bobl a helpir (uchafswm)** | **46** |

| **Maes/prosiect:** | **Ymgynghori gyda'r cyhoedd i sefydlu anghenion tai** | **Cyfeirnod** | **3c** |
|---|---|---|---|

**2.4. Cefndir**

2.4.1. Pan luniwyd y Cynllun Gweithredu Tai yn wreiddiol, bwriadwyd lansio ymgynghoriad cyhoeddus unigol, ond penderfynwyd ar lefel gorfforaethol y byddai'r Ymgynghoriad Anghenion Tai yn cael ei gynnwys yn rhan o un ymarferiad ymgynghori corfforaethol dan faner 'Dweud eich Dweud Gwynedd: Ardal Ni 2035', dan arweiniad yr Adran Economi a Chymuned.

**2.5. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill**

2.1.1. Cydweithiodd y Adran gyda'r Gwasanaeth Cyfathrebu i lunio'r cwestiynau er mwyn sicrhau bod y dull cwestiynu yn gyson ac yn debygol o ddod â'r canlyniadau mwyaf gwerthfawr allan o'r ymatebion.

2.1.2. Mae'r holiadur bellach yn gyhoeddus ar wefan y Cyngor ac mae 247 ymateb wedi'i dderbyn mewn llai nag wythnos.

**2.6. Beth yw'r camau nesaf**

2.6.1. Bydd yr ymatebion yn cael eu dadansoddi gyda chymorth y Gwasanaeth Ymchwil a Dadansoddeg

2.6.2. Gobeithiwn allu cymryd "darlun" o'r sefyllfa o gwmpas mis Ebrill/Mai, ond byddwn yn cadw'r holiadur yn fyw er mwyn rhoi'r cyfle i gymaint â phosib o drigolion Gwynedd ei gwblhau a galluogi i ni gael y darlun llawnaf o'r sefyllfa

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Dolen i'r ymgynghoriad: https://dweudeichdweud.gwynedd.llyw.cymru/

| Maes/ prosiect: | Grantiau | Cyfeirnod | 3dd, 5f, 5ff |
|---|---|---|---|

**2.7. Cefndir**

2.7.1. Mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn cynnwys nifer o gynlluniau sy'n ymwneud â rhoi neu dderbyn grantiau.

2.7.2. Er enghraifft, mae'r grantiau a roddwn i bobl Gwynedd trwy gynlluniau 5f (*Diogelwch yn y Cartref*) a 5ff (*Addasiadau i wneud tai yn gartrefi addas i unigolion ag anableddau*) yn caniatáu i bobl anabl allu parhau i fyw yn ddiogel yn eu cartref.

2.7.3. Rydym hefyd yn rhoi grantiau i brynwyr tro cyntaf sy'n galluogi iddynt adnewyddu tai gweigion i safon byw derbyniol (cynllun 3dd yn y Cynllun Gweithredu Tai).

**2.8. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill**

2.8.1. **5f a 5ff:** Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cwblhawyd 142 o addasiadau. Roedd hyn yn cynnwys 70 o addasiadau i risiau neu osod gadeiriau esgyn a gosod 12 o rampiau ynghyd a chodi estyniadau neu addasu ystafelloedd presennol i greu ystafelloedd gwlyb pwrpasol.

2.8.2. **3dd:** Yn ddiweddar, llwyddwyd i ddenu £3m tuag at gynlluniau Tai Gwag er mwyn prynu a dod â thai gweigion yn ôl i ddefnydd yng Ngwynedd. Mae 22 cais yn fyw ar hyn o bryd, a 45 o ymholiadau yn cael eu prosesu. Mae'r rhain ym mhob cornel o'r Sir, o Fangor i Dywyn, ac o Nefyn i'r Bala.

**2.9. Beth yw'r camau nesaf**

2.9.1. Parhau i dderbyn a phrosesu ceisiadau


**2.10. Heriau a wynebwyd**

2.4.1. Mae wedi bod yn her ymateb i **gynnydd sylweddol ym mhrisiau deunyddiau arbenigol** (megis grisiau esgyn) a ddaeth yn sgil Brexit a Covid.

2.4.2. Mae'r farchnad i weld wedi sefydlogi fymryn ond mae'r amser a gymerir i gwblhau rhai addasiadau i dai wedi codi o'r herwydd.

**Gwybodaeth ychwanegol:**

**Grantiau Tai Gwag i Brynwyr Tro Cyntaf**





**Ceisiadau byw:**
Bangor (2); Bethesda a Thregarth (4); Blaenau Ffestiniog (3); Bontnewydd (1) Caernarfon (2); Deiniolen (2); Groeslon (1); Llanuwchllyn (1); Penisarwaun (1); Penygroes (2); Pwllheli (2); Y Felinheli (1)

**Ymholiadau:**
Bangor (4); Bethesda (3); Blaenau Ffestiniog (1); Caernarfon (4); Deiniolen (1); Dolgellau (2); Penrhyndeudraeth (2); Penygroes (1); Pistyll (1); Porthmadog (3); Pwllheli (1) Tywyn (1); Y Bala (1)

| Maes/ prosiect: | Digartrefedd – lletyau â chefnogaeth i'r digartref | Cyfeirnod | 1a, 1b, 1ch, 4b |
|---|---|---|---|

**2.1. Cefndir**

2.1.1. Mae'r nifer o gyflwyniadau digartref a dderbyniwn ar ei uchaf erioed, ac wedi cynyddu 51% ers 2018:




2.1.2. Ar 14 Ionawr, 2022, roedd 712 o unigolion yn ddigartref yng Ngwynedd, a 254 o'r rheiny mewn llety dros dro.

2.1.3. Gosododd Lywodraeth Cymru ofyniad statudol ar Awdurdodau Lleol i gartrefu unrhyw un a gyflwynai'n ddigartref dros gyfnod y pandemig ac, yn ddiweddar, gwnaethpwyd y gofyniad hwnnw'n ofyniad parhaol.

2.1.4. Golyga hynny y bydd nifer y cyflwyniadau digartref yn parhau ar y lefelau presennol ac yn debygol o godi eto (fel yr awgryma llinell duedd y graff uchod). Mae'n debyg na welwn y nifer yn gostwng i lefelau cyn 2020 eto.

2.1.5. Mae'r Adran yn ymateb i bob cais a gyflwynir, ac wedi gallu cynyddu capasiti'r Unedau Digartrefedd yn ddiweddar er mwyn ymdopi â'r cynnydd uwch.

2.1.6. Er mwyn ymdopi â'r cynnydd hwn, mae'r Cynllun Gweithredu Tai yn nodi nifer o gynlluniau i fynd â'r afael â'r sefyllfa, ac mae sawl prosiect eisoes wedi dechrau ac yn parhau i wneud cynnydd da, gydag ambell un wedi gorffen.

**2.2. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill**

2.2.1. Manylir ar ambell ddatblygiad sydd ar y gweill neu sydd wedi cwblhau isod:

**<u>Tŷ Adferiad, Porthmadog</u>**

Llety â chefnogaeth i ferched sy'n ddigartref, y cyntaf o'i fath yng Ngwynedd. Agorodd ei ddrysau yn Hydref 2021, ac mae 6 o ferched yn derbyn cefnogaeth yno ar hyn o bryd.

| Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad | 6 | Nifer o bobl a helpir (uchafswm) | 6 |
|---|---|---|---|

**<u>Caertref, Segontiwm, Caernarfon</u>**

4 "pod" hunangynhaliol ar gyfer unigolion digartref sydd ag anghenion dwys. Mae'r podiau wedi'u hadeiladu yn defnyddio technoleg *Passivhaus* sy'n golygu bydd y defnydd ynni yn hynod o isel. Mae'r adeiladu wedi gorffen ac mae'r contractwyr wrthi'n cwblhau manion sy'n weddill. Bwriedir i'r tenantiaid cyntaf symud i mewn yn ystod y misoedd nesaf.

| Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad | 4 | Nifer o bobl a helpir (uchafswm) | 4 |
|---|---|---|---|

**<u>137 Stryd Fawr, Bangor</u>**

Mae'r datblygiad hwn, ar y cyd ag Adra a Thai Gogledd Cymru, yn darparu llety gyda chefnogaeth i unigolion allu cynnal tenantiaethau parhaol yn y dyfodol.

| Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad | 12 | Nifer o bobl a helpir (uchafswm) | 12 |
|---|---|---|---|

**<u>Safle hen Ysgol Glan Wnion, Dolgellau</u>**

Mae'r contractwyr bellach wedi dechrau ar eu gwaith, ac yn bwriadu dymchwel yr adeilad presennol yn yr wythnosau nesaf. Bydd y datblygiad hwn yn cynnig llety â chefnogaeth i unigolion digartref gyda'u tenantiaeth, fydd yn dysgu'r sgiliau perthnasol iddynt allu cynnal tenantiaethau yn y dyfodol.

| Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad | 5 | Nifer o bobl a helpir (uchafswm) | 5 |
|---|---|---|---|

**Llety i deulu ac unigolyn, Pwllheli**

Mae'r gwaith hwn ar y gweill ar hyn o bryd, a gobeithiwn yn bydd wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth. Unwaith eto, bydd y datblygiad hwn yn cefnogi unigolion digartref i allu cynnal tenantiaethau parhaol yn y dyfodol.

| Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad | 2 | Nifer o bobl a helpir (uchafswm) | 3 |
|---|---|---|---|

**35 Ffordd y Coleg, Bangor**

Mae'r cynllun hwn yn datblygu eiddo yn Ffordd Y Coleg, Bangor yn eiddo gyda thri fflat oedd yn segur ers blynyddoedd lawer. Bydd yr eiddo yn cefnogi unigolion gydag amryw anghenion ac angen cefnogaeth tenantiaeth ddwys, ac yn cynnwys swyddfa, cegin ac ystafell gyfarfod ar yr is-lawr ar gyfer staff arbenigol. Bydd y datblygiad yn cael ei reoli ar y cyd â Chymdeithas Tai Gogledd Cymru, a bydd yn barod o fewn y 6-8 wythnos nesaf.

| Unedau a ddatblygir trwy'r datblygiad | 3 | Nifer o bobl a helpir (uchafswm) | 3 |
|---|---|---|---|

**2.3. Beth yw'r camau nesaf**

2.3.1. Bu'r Adran yn llwyddiannus yn eu bid am grant am gymorth ariannol i roi pecynnau cefnogaeth landlordiaid at ei gilydd. Bydd y pecynnau gwahanol yn anelu i ddenu ymrwymiad landlordiaid preifat i'n cynorthwyo i letya pobl ddigartref.

**2.4. Heriau a wynebwyd**

2.1.1. Mae **denu contractwyr i dendro** dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn her, a phan fo cwmnïau'n tendro, mae hynny'n aml yn uwch o lawer na'r gyllideb sydd wedi'i gosod. Er enghraifft, er i 19 contractwr fynegi diddordeb mewn un cais am dendr, dim ond 2 dendr a dderbyniwyd. Roedd un o fewn y gyllideb ac roedd y llall 32% yn uwch.

2.1.2. Er mwyn ceisio ymateb i'r sefyllfa hon, mae'r Adran wedi arbrofi gyda maint rhai ceisiadau am dendr ac mae canlyniadau cychwynnol hyn i weld yn addawol.

2.1.3. Her arall yw **ymateb i brisiau llawer uwch am ddeunyddiau adeiladu**, megis coed.

2.1.4. Rydym yn amcangyfrif bod angen ychwanegu 20-25% at amcan-gostau er mwyn adlewyrchu'r farchnad yn realistig ar hyn o bryd.

| Maes/ prosiect: | Siop Un Stop | Cyfeirnod | 6 |
|---|---|---|---|

**2.2. Cefndir**

2.2.1. Bwriad y Siop Un Stop ydy ymateb i'r heriau sy'n wynebu trigolion wrth gyflwyno ceisiadau yn ymwneud â thai.

2.2.2. Trwy sefydlu Siop Un Stop, rhoddir cyfleoedd i ddeall anghenion ein cwsmeriaid yn well a gwella'r ffordd yr ydym yn casglu, coladu a defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o'r ymholiadau hynny.

2.2.3. Byddwn yn gallu defnyddio'r wybodaeth i hysbysu rheolwyr ar gyfer cynllunio ac addasu eu darpariaeth yn y dyfodol, a pha wasanaethau ychwanegol gallwn eu cynnig ac ym mha ffyrdd y darparwn hwy.

2.2.4. Disgwylir y bydd sefydlu'r Siop un Stop yn cyfrannu at ein cynlluniau i redeg gwasanaethau mwy effeithiol ynghyd â chwilio am gyfleoedd i wneud gwell defnydd o adnoddau.

**2.3. Beth sydd wedi digwydd / ar y gweill**

2.3.1. Penodwyd Arweinydd Tîm ar gyfer y Siop un Stop ym mis Chwefror

2.3.2. Mae'r Arweinydd wrthi'n cynnal gwaith ymgysylltu gyda phartneriaid mewnol ac allanol er mwyn deall yr anghenion a'r ymholiadau.

**2.4. Beth yw'r camau nesaf**

2.4.1. Y camau nesaf fydd adnabod modelau gwahanol ar gyfer gweithrediad yr uned newydd a fydd hefyd yn cynnwys y strwythur ar gyfer y tîm.

2.4.2. Bydd y camau nesaf hefyd yn cynnwys ystyriaeth ar gyfer datrysiadau technegol. Bydd angen casglu gwybodaeth gyson, gynhwysfawr a chyfredol mewn un system i ddarparu'r cyngor perthnasol.

2.4.3. Yn ogystal, bydd angen datblygu rolau staff a'u hyfforddi i'w galluogi i ddarparu'r gwasanaeth yn effeithiol

2.4.4. Bydd canfyddiadau'r gwaith sgopio hwn yn arwain at gyflwyno adroddiad ar yr opsiynau gwahanol, ac yn cynnwys argymhelliad ar y ffordd ymlaen.

**3. SYMUD YMLAEN**

**3.1.** Fel sy'n amlwg o'r cynnwys uchod, mae gwaith dygn yn digwydd ar gynlluniau'r Cynllun Gweithredu Tai ac mae swyddogion yn gweithio'n galed ar waith paratoi a braenaru tir er mwyn gallu symud ymlaen gyda nifer o gynlluniau.

**3.2.** Er hynny, rydym yn cydnabod bod angen **cyfathrebu mwy ar negeseuon a llwyddiannau'r Cynllun.**

**3.3.** Felly, yn ogystal â'r camau nesaf a amlygir yn y tablau uchod, byddwn yn edrych ar gynllun cyfathrebu ar gyfer y Cynllun Gweithredu Tai yn y ei gyfanrwydd.

**3.4.** Ar gyfer Aelodau Etholedig y Cyngor, rydym eisoes wedi sefydlu tudalen ar y Mewnrwyd Aelodau er mwyn cyhoeddi newyddion, diweddariadau a gwybodaeth sy'n deillio o'r Cynllun Gweithredu Tai. Mae'r dudalen hon yn cael ei diweddaru'n gyson gyda newyddion, ystadegau a gwybodaeth am ddatblygiadau all fod o ddefnydd a diddordeb i Aelodau.

**3.5.** Rydym hefyd wrthi'n cydweithio gyda'r Gwasanaeth TG i greu system gofnodi ar gyfer y Cynllun Gweithredu Tai fydd yn gweithredu fel bas data ar gyfer holl wybodaeth am ddatblygiadau'r Cynllun. Bydd hyn yn caniatáu i arweinwyr a rheolwyr prosiect gael darlun wrth-y-funud o'r data a'r cynnydd, yn ogystal ag adnabod risgiau a rhwystrau yn gynnar er mwyn ceisio eu datrys.

Byddwn yn croesawu cyfle i ddychwelyd at y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol i roi diweddariad pellach ar y weithgarwch y Cynllun Gweithredu Tai.

---

Atodiad 1 – Llinell Amser Hydref 2021-Mawrth 2022

| Dyddiad | Digwyddiad |
|---|---|
| **Hydref 2021** | - Llety â chefnogaeth wedi agor ym Mhorthmadog (6 uned) |
| **Tach. 2021** | - Cwblhau adeiladu pods Caernarfon (4 uned) |
| **Rhagfyr 2021** | - Cam 1 ymgynghori gyda chymunedau yn gorffen (wedi'i arwain gan Adran Economi a Chymuned)<br>- Derbyn canlyniad apêl adeilad hen Ysgol Glan Wnion |
| **Ionawr 2022** | - Datblygu unedau â chefnogaeth ar hen safle Ysgol Glan Wnion (5 uned) – cwblhau yn chwarter olaf 2022 |
| **Wythnos 07/02/ 2022** | - Lansio cynllun datblygu tai (Tŷ Gwynedd) (10 uned) |
| **Wythnos 14/02/ 2022** | - Ymgynghori ar gynllun Tŷ Gwynedd (10 uned)<br>- Cam 2 ymgynghoriad Ardal Ni 2035 yn lansio (er mwyn sefydlu anghenion tai pobl Gwynedd) |
| **Chwef. 2022** | - Datblygu adeilad Natwest/Gisda (4 uned)<br>- Datblygu 137 Stryd Fawr, Bangor (12 uned)<br>- Datblygu 35 Ffordd y Coleg, Bangor (4 uned)<br>- Uwchraddio ac atgyweirio ein hostelau (13 uned rhwng y ddau hostel)<br>- Datblygu tai gyda chefnogaeth i Oedolion ym Mhwllheli (2 uned i 3 o bobl) |
| **Mawrth 2022** | - Cwblhau prynu tir yn Nwyfor<br>- Manion dasgau yn cwblhau ar y pods yn Nghaernarfon (4 uned) |
| **Ebrill/ Mai 2022** | - Cyflwyno cais cynllunio Tŷ Gwynedd Coed Mawr |

# Eitem 7

| | |
|---|---|
| **Enw'r Pwyllgor** | **Pwyllgor Craffu Gofal** |
| **Dyddiad y Cyfarfodf** | **Mawrth 17, 2022** |
| **Teitle yr eitem** | **Strageaeth Maethu Gwynedd** |
| **Pwrpas** | **Diweddaru ar stragetaeth faethu Gwynedd yng nghyd-destun y Fframwaith Maethu Cenedlaethol** |
| **Awdur** | **Aled Gibbard** |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Dilwyn Morgan** |

## 1. Cefndir Cenedlaethol


Crëwyd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol i fynd i'r afael â'r pryderon cynyddol ynghylch effeithiolrwydd a chynaliadwyedd cyffredinol gwasanaethau maethu yng Nghymru. Roedd datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu (NFF) yn un o brif feysydd gwaith y rhaglen waith a luniwyd gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant.

Un o'r ysgogwyr allweddol yn natblygiad Fframwaith Maethu Cenedlaethol fu'r gydnabyddiaeth nad oedd gan Awdurdodau Lleol ledled Cymru niferoedd digonol o ofalwyr maeth, gyda digon o gymorth a sgiliau i fodloni'r galw cynyddol am leoliadau i blant a phobl ifanc gydag anghenion gynyddol cymhleth. Mae'r gwaith a wneir o dan y Fframwaith yn canolbwyntio ar hyn i gynorthwyo Awdurdodau Lleol i fodloni'r galw hwn.

Mae Adroddiad Terfynol 2018-2021 y Fframwaith Maethu Cenedlaethol **(Atodiad 1**) yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed a, gyda lansiad Maethu Cymru, bydd y swyddogaethau cenedlaethol neu gydgysylltu'n cael eu datblygu bellach drwy gydweithio gyda Thîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gyda staff ychwanegol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol.

## 2. Cyd-destun Lleol

Mae adeiladu ein darpariaeth faethu fewnol yn hanfodol er mwyn parhau i wella canlyniadau i blant, a mae hyn yn golygu symud cydbwysedd gofal ac adnoddau ein timau Maethu i alluogi twf a'r gallu i ymateb i ofynion. Nifer y plant oedd yn derbyn gofal yng Ngwynedd ar ddiwedd Chwefror 2022 oedd 271. Mae 175 o'r plant hyn yn cael eu lleoli mewn gofal maeth. Yng Ngwynedd, daeth 46 o blant i dderbyn gofal yn 2020-21 a 50 hyd yn hyn eleni. Mae 33 o'r plant hyn wedi'u lleoli mewn gofal maeth (32 yn 2020-21). O'r rhai a roddwyd mewn gofal maeth, roedd 19 wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth prif ffrwd ac 14 gyda gofalwyr maeth cysylltiedig. Yn 2020-21, roedd 32 o Leoliadau maethu newydd (20 prif ffrwd a 12 Cysylltiedig).



Yn 2020-21 cynyddodd nifer y cartrefi maethu prif ffrwd sydd wedi'u cofrestru gyda Gwynedd o 68 i 71. Roedd hyn oherwydd nad oedd unrhyw ofalwyr maeth prif ffrwd wedi gadael y Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfanswm a gofrestrwyd eleni wedi gostwng ychydig, gyda rhai gofalwyr maeth sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir yn penderfynu ymddeol.

Nid yn unig y mae angen sicrhau bod y niferoedd hyn yn cael eu disodli er mwyn cwrdd â’r galw sydd gennym ar hyn o bryd, ond hefyd ein bod yn cynyddu’r nifer o ofalwyr maeth Awdurdod Lleol yng Ngwynedd o flwyddyn i flwyddyn er mwyn cwrdd â gofynion plant mewn gofal yn y dyfodol. Gall diffyg gofalwyr maeth Awdurdod Lleol arwain at ddefnydd cynyddol o leoliadau Asiantaeth Maethu Annibynnol ar gostau ychwanegol i'r Cyngor. Mae'r lleoliadau a gynigir gan yr asiantaethau annibynnol hefyd yn fwy tebygol o fod y tu allan i'r sir ac yn creu pwysau, cymhlethdod a chostau ychwanegol mewn perthynas ag amser a threuliau staff.

3**. Gwasanaeth Maethu Gwynedd**

Mae prif flaenoriaethau Gwasanaeth Maethu Gwynedd fel a ganlyn:

- Darparu teulu maeth lleol i unrhyw blentyn na all fyw gyda'i deulu, neu sydd angen seibiant rheolaidd neu ofal a rennir i wneud hynny, a all ddiwallu ei anghenion o ran adsefydlu (lle bo'n briodol), sefydlogrwydd, diogelwch ac ymlyniad.
- Diwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chefnogi cyflawni'r canlyniadau a nodir yn eu cynlluniau gofal.
- Cynyddu nifer y gofalwyr maeth cofrestredig.
- Sicrhau paru da a hybu sefydlogrwydd lleoliadau.
- Cynyddu cyfran y Plant sy'n Derbyn Gofal mewn lleoliadau maethu mewnol.
- Sicrhau bod gofalwyr maeth yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt pan fyddant ei angen.
- Sicrhau hyfforddiant a datblygiad effeithiol i ofalwyr maeth.
- Mynd ati i geisio barn a safbwyntiau pobl ifanc a gofalwyr wrth gynllunio ac adolygu gwasanaethau.

*Gofal Maeth Cysylltiedig*

Ar lefel genedlaethol a lleol, mae gofalwyr maeth cysylltiedig wedi gweld twf net flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae gofalwyr maeth cysylltiedig fel arfer yn perthyn i'r plentyn a phan fo angen i blentyn ddod i ofal, rhoddir ystyriaeth bob amser yn gyntaf i leoli gyda pherthynas neu ffrind. Mae cynnal y perthnasoedd hyn a darparu cymorth addas felly yn flaenoriaeth hollbwysig i’r gwasanaeth maethu wrth gynllunio ei waith.

Mae hyn yn cael ei gydnabod o dan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol a’r Canllaw Arfer Da i Ofalwyr Cysylltiedig a gyhoeddwyd. Mae hyn wedi ei weithredu'n llawn yng Ngwynedd. Er mwyn canolbwyntio ar wahanol anghenion gofalwyr maeth cysylltiedig, rheoli’r  broses asesu a darparu cefnogaeth, mae'r Tîm Maethu yng Ngwynedd wedi ei ail-strwythuro, gyda 4 Gweithiwr Cymdeithasol yn ymgymryd â swmp y gwaith hwn dan arweiniad Arweinydd Ymarfer.

*Gofal Maeth Prif Ffrwd*

Yn dilyn ailstrwythuro'r Tîm Maethu, mae 6 Gweithiwr Cymdeithasol dan arweiniad Arweinydd Ymarfer bellach yn rheoli'r asesiadau ac yn darparu cefnogaeth fel Gweithiwr Cymdeithasol Goruchwyliol i ofalwyr maeth prif ffrwd. Y blaenoriaethau ar gyfer y gweithwyr hyn yw darparu cymorth effeithiol i ofalwyr maeth prif ffrwd, cynorthwyo yn eu dysgu a'u datblygiad a chynnal asesiadau ar gyfer gofalwyr maeth newydd.

*Recriwtio*

Ar lefel Genedlaethol mae darpariaeth maethu prif ffrwd yn parhau i adrodd am colled net yng nghyfanswm nifer yr aelwydydd sydd wedi eu cymeradwyo. Her allweddol i holl Wasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol Cymru yw gwella nifer yr ymholiadau a chymeradwyaeth gofalwyr maeth newydd. Roedd lansiad Maethu Cymru ym mis Gorffennaf 2021 yn ddatblygiad arwyddocaol i godi proffil ac ymwybyddiaeth o'r angen am ofalwyr maeth newydd ledled Cymru.

Am y tro cyntaf mae brand cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol, gan sicrhau effeithlonrwydd maint mewn perthynas â gweithgarwch marchnata a recriwtio. O dan y brand mae pob awdurdod lleol yn cadw ei hunaniaeth ei hun ac mae Swyddog Marchnata Rhanbarthol wedi cael ei recriwtio. Mae'r swyddog hwn yn cael ei gyflogi gan Wynedd a bydd yn gyfrifol am feithrin marchnata ar gyfer y chwe Awdurdod Lleol, gan gynnwys datblygu strategaeth recriwtio a marchnata, gweithredu ymgyrchoedd recriwtio lleol a rhanbarthol, datblygu cynnwys ar gyfer y gwefannau a sianeli cyfryngau cymdeithasol ac chyd-gordio'r blaenoraethau recriwtio a marchnata cenedlaethol.

**4. Blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn y dyfodol**

- Parhau i letya'r swydd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol yng Ngwynedd ( rhan amser a rhan amser fel Rheolwr Tim Maethu Gwynedd).
- Datblygu rôl y Swyddog Marchnata i gydlynu marchnata a recriwtio gofal maeth cenedlaethol a lleol.
- Ymgorffori a defnyddio'r fframwaith Rheoli Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer maethu i fonitro'r ddarpariaeth leol a chynorthwyo gyda chynllunio'r gwasanaeth yn y dyfodol
- Datblygu mentrau cadw gofalwyr cenedlaethol megis yr Ymrwymiad Cenedlaethol i ofalwyr maeth.
- Datblygu ymhellach y fframwaith Dysgu a Datblygu yng Ngwynedd.
- Parhau i gyfrannu at y gwaith o gysoni taliadau gofalwyr maeth.
- Hyrwyddo safonau arfer gorau a gwella ansawdd ar draws y sector.
- Dadansoddiad Anghenion Rhanbarthol eisoes wedi'i gynnal a bydd hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio Strategaeth Recriwtio a Chadw rhanbarthol a lleol ar gyfer 2022-25. Mae'r gwaith o gasglu data ar gyfer y dasg hon ar y gweill a bydd yn cael ei gwblhau yn ystod mis Ebrill 2022.

.





**Y Fframwaith Maethu Cenedlaethol**

# Adroddiad Terfynol

2018 – 2021

National
Fostering
Framework

Fframwaith
Maethu
Cenedlaethol

# Rhagair

Dave Howes, Cyfarwyddwr Arweiniol ADSS ar gyfer Maethu Cymru – Foster Wales

Ers cymryd rôl cyfarwyddwr arweiniol y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn 2019, mae wedi bod yn fraint cael bod yn rhan o'r rhaglen a gweld drosof fy hun, y datblygiadau a gyflawnwyd.

Mae'r cynnydd a wnaed yn sylweddol a diolch i egni ac ymrwymiad staff ymroddedig o bob rhan o'r chwe rhanbarth maethu, rydym wedi cyrraedd y pwynt hwn.

Mae'r rhaglen waith dros flynyddoedd diwethaf y FfMC wedi bod yn uchelgeisiol. Bydd cynnwys yr adroddiad gwaddol hwn ar gyfer y FfMC yn tywys y darllenydd trwy'r amrywiol elfennau a gyflwynwyd, a'n cynlluniau ar gyfer y dyfodol wrth i ni barhau i ymdrechu i fod y gorau y gallwn fod o ran maethu mewn awdurdodau lleol yng Nghymru.

Rydym bellach yn gwybod llawer mwy am ein darpariaeth maethu yng Nghymru ers cyflwyno set ddata perfformiad y FfMC yn 2016 a'i datblygu ymhellach yn 2019. Mae'r holl awdurdodau lleol yn ymdrechu i sicrhau bod y ffurflen ddata yn cael ei chwblhau'n gywir i ysgogi gwelliant strategol.

Mae gennym fframwaith cenedlaethol newydd i gefnogi addysgu a datblygu gofalwyr maeth. Ers y lansiad rydym wedi derbyn adborth cadarnhaol sylweddol, yn anad dim gan ofalwyr maeth eu hunain, a hynny o ran y gwahaniaeth y mae'n ei wneud.

Mae gan bob un o'r rhanbarthau maethu adnoddau pwrpasol i gefnogi'r dull cenedlaethol, ac i ddatblygu atebion rhanbarthol pwrpasol i heriau mwy lleol. Mae'r perthnasoedd rhwng staff a gwasanaethau sydd wedi'u hadeiladu'n lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn ffactor hanfodol yn y llwyddiant hyd yma. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i weithio gyda'n gilydd i gysoni, lle bydd hyn yn helpu i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Yn yr adroddiad hwn byddwn yn clywed am enghreifftiau o arfer da a gwelliannau pellach sydd wedi'u cynllunio gan bob un o'r rhanbarthau.

Fel cenedl, rydym wedi gosod safonau arfer gorau a heb os, byddwn yn parhau i nodi mwy wrth inni symud ymlaen â'n rhaglen strategol o dan faner **Maethu Cymru – Foster Wales**.

Hoffwn achub ar y cyfle i ddiolch i'r holl rhanddeiliad sydd wedi bod yn rhan o'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol ac sydd wedi helpu i lunio dyfodol maethu yng Nghymru.





# 1. Cyflwyniad

# Cyflwyniad

Datblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu (FfMC) oedd un o'r elfennau mwyaf o waith y rhaglen waith a ddyluniwyd gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant.





Cydnabuwyd bod angen system arnom yng Nghymru lle mae pob plentyn a pherson ifanc sy'n cael ei faethu yn cael:

- sicrwydd a sefydlogrwydd yn eu cartref maeth
- help i wneud a chynnal perthnasoedd
- cymorth i aros tan iddynt fod yn barod i adae
- help i gyrraedd eu potensial.

Yn yr un modd, mae pob gofalwr maeth yn haeddu:

- cael parch fel cydweithiwr gofal plant proffesiynol
- derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ofalu'n iawn am bob plentyn
- chwarae rhan lawn yn y penderfyniadau a wneir
- cael eu grymuso i wneud penderfyniadau priodol o ddydd i ddydd sydd yn ymwneud â'r plant y maent yn gofalu amdanynt.

**Nodau'r FfMC oedd:**

- gwella cynllunio sefydlogrwydd i blant ac ansawdd wrth ddarparu lleoliadau
- datblygu bwriad strategol mwy grymus a chymhellol ar gyfer gwasanaethau maethu
- cynyddu cydweithredu a chydweithrediad yr holl randdeiliaid allweddol
- dyfeisio gwelliannau a arweinir gan y sector
- sicrhau mwy o dryloywder ynghylch perfformiad gwasanaethau maethu a defnyddio meysydd adnoddau yn effeithlon
- argymell arbedion maint, lle bo hynny'n briodol, gyda pharch at frogarwch
- adeiladu ar gynllunio a chomisiynu gwasanaethau a rennir
- creu a defnyddio modelau arfer gorau yn gyson i recriwtio a chefnogi gofalwyr maeth ar draws pob sector
- sicrhau cysylltiadau agosach ag ymchwil a gwerthuso.

Pan ddechreuodd gwaith ar y Fframwaith Maethu Cenedlaethol (FfMC) yn 2015-16, rhagwelwyd y byddai'r rhaglen yn cymryd o leiaf bum mlynedd. Mae wedi cymryd chwech ac fe wnaeth ddirwyn i ben yn unol â'r MAG ar ddiwedd y cyfnod 20 -21. Roedd Blwyddyn Un (2015-16) yn cynnwys datblygu Papur Syniadau Cyntaf ac ymgynghori'n helaeth â rhanddeiliaid allweddol. Roedd Blwyddyn Dau (2016-17) yn cynnwys ystyried ffurf gyffredinol a'r model swyddogaethol ar gyfer y FfMC ac ymgynghori ymhellach ynghylch sut y dylai weithredu. Gwelwyd Blwyddyn Tri (2017-18) fel blwyddyn gyntaf rhaglen weithredu tair blynedd.

Dros y tair blynedd diwethaf rhwng Ebrill 2018 - Mawrth 2021, mae'r FfMC wedi parhau i gyflawni ei Raglen Waith Cam 3. Goruchwyliwyd y gwaith gan Grŵp Llywio FfMC, gyda'r holl randdeiliaid allweddol yn aelodau, yn ogystal â Grŵp Monitro gweithredol llai, sydd wedi gwneud penderfyniadau allweddol ac wedi sicrhau bod y £400,000 o adnoddau canolog sy'n cefnogi'r rhaglen yn cael ei wario'n ofalus. Grant gan Lywodraeth Cymru oedd hwn i ddechrau ond er 2017-18 Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru sydd wedi ei ddarparu. Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, mae rhoi cyfrif cyhoeddus o'r gwaith hwnnw trwy'r adroddiad terfynol hwn yn cael ei ystyried yn fodd pwysig i ni gyfleu'r hyn a gyflawnwyd, disgrifio'r camau nesaf a chymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Fframwaith yn unol â'r nodau a gafodd eu datgan gennym.

Yn y cyhoeddiad hwn, yr adroddiad terfynol gan y FfMC, byddwn yn crynhoi'r daith o 2015, gan dynnu sylw at y nodau ar ddechrau'r rhaglen a sut y cawsant eu cyflawni, neu sut y maen nhw'n parhau i gael eu datblygu. Byddwn yn nodi cyflawniadau awdurdodau a rhanbarthau lleol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac yn disgrifio'r cynlluniau ar gyfer dyfodol maethu yng Nghymru.



Hoffem gydnabod a diolch i'r holl sefydliadau sydd wedi ein helpu i gyflawni ein rhaglen waith uchelgeisiol o dan gydweithrediad y FfMC, gan gynnwys y rhai a oedd yn rhan o'r Grŵp Llywio Strategol.



# 2. Y Tîm

# Ein rhwydwaith estynedig

Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae'r tîm sy'n gyrru agenda'r FfMC wedi tyfu, a chrëwyd cysylltiadau cryf ar draws pob rhanbarth yng Nghymru.

Fe wnaeth y Grŵp Llywio Strategol (GLlS) barhau i oruchwylio'r gwaith ar lefel cenedlaethol. Mae'r fforwm hwn wedi elwa o ystod eang o randdeiliaid sydd wedi ychwanegu gwerth ac wedi dwyn y FfMC i gyfrif. Fe'u galluogwyd i wneud hynny diolch i waith ymroddedig y Grŵp Monitro Busnes (GMB).

| **Y Grŵp Monitro Busnes** | |
|---|---|
| Dave Howes | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe a Chyfarwyddwr Arweiniol y FfMC |
| Tanya Evans | Pennaeth Gwasanaethau Plant Blaenau Gwent a PGP Arweiniol y FfMC |
| Stewart Blythe | Swyddog Polisi CLlLC |
| Suzanne Griffiths | Cyfarwyddwr Gweithrediadau GMC, Arweinydd Strategol y FfMC |
| Jason Baker | Dirprwy Gyfarwyddwr, Cymdeithas Plant Dewi Sant, Cynrychiolydd y 3ydd sector |
| Sarah Thomas | Rheolwr y Rhaglen |

| | |
|---|---|
| **Arweinydd Strategol Cenedlaethol** Suzanne Griffiths | Mae Suzanne wedi rhoi arweinyddiaeth strategol genedlaethol ar draws pob elfen o'r prosiect. Gyda hi oedd y cyfrifoldeb cyffredinol am oruchwylio a chynnydd. |
| **Rheolwr Rhaglen Cenedlaethol** Sarah Thomas | Cyflogir Sarah gan AFA Cymru a gomisiynwyd i ddarparu rheolaeth rhaglen. Mae Sarah wedi arwain ar gyflawni'r nifer o ffrydiau gwaith y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, gan weithio'n agos gyda'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol (RDRh) |
| **Rheolwr Marchnata Cenedlaethol (Dros Dro)** Matt Clark | Mae Matt yn ymgynghorydd brandio a marchnata sydd wedi bod yn gweithio gyda thîm y FfMC am yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac ef arweiniodd y prosiect i greu ein Brand Cymru Gyfan ar gyfer Gwasanaethau Maethu Awdurdodau Lleol. |

**Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol (RhDRh)**

Mae pob rhanbarth wedi penodi rheolwr i oruchwylio datblygiad y ddarpariaeth maethu yn eu rhanbarth. Mae gennym chwe rhanbarth sy'n cael eu cydnabod yn y maes maethu. Prif swyddogaethau'r RhDRh yw:

- Bod yn gyfrifol am ddatblygiad y gwasanaeth yn gyffredinol;
- Datblygu, adolygu a gweithredu rhaglenni gwaith rhanbarthol yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol;
- Datblygu a chynnal perthnasoedd gwaith effeithiol gyda staff ym mhob gwasanaeth maethu ALl ledled y rhanbarth;
- Sicrhau ymgysylltiad effeithiol â'r holl PGP (neu uwch reolwyr a nodwyd) yn y rhanbarth, gan gynnwys systemau ar gyfer riportio diweddariadau, cynigion a chael cymeradwyaeth;
- Cydweithio â RhDRh eraill, SMP, rheolwr y rhaglen ac eraill sy'n berthnasol i gytuno a chyflawni blaenoriaethau'r rhaglen waith genedlaethol;
- Arwain ar goladu, dadansoddi ac adrodd ar ddata perfformiad rhanbarthol;
- Cyfrannu at gasglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata perfformiad cenedlaethol; a
- Sicrhau bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer ymgynghori, ymgysylltu a rhannu gwybodaeth yn rhanbarthol

| | |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Mel Panther (ALl Arweiniol Gwynedd) |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Sue John Evans (ALl Arweiniol Penfro ) |
| Gorllewin Morgannwg | Nicola England (ALl Arweiniol Abertawe) |
| Cwm Taf Morgannwg | Alastair Cope (ALl Arweiniol RCT) |
| Gwent | Nina Kemp-Jones (ALl Arweiniol Blaenau Gwent) |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | Rob Hinds (ALl Arweiniol Caerdydd) |



# 3. Y Daith

# Y daith yr ydyn ni wedi bod arni gyda’n gilydd

Mae’r adran isod yn rhoi crynodeb o’r hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni a’r cynnydd a wnaed hyd yma.

Cynhaliwyd ymgynghoriad mawr ar ddechrau taith y FfMC, ac o hyn, nodwyd yr argymhellion a’r meysydd i’w datblygu.

I ddarllen mwy am ein datblygiad cynnar gweler: Adroddiadau Cam Un, Dau a Thri y FfMC












**Fframwaith Perfformiad Cenedlaethol**

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni | Cyflawniadau, canlyniadau a’r camau nesaf |
|---|---|
| • Creu fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol ar gyfer y gwasanaethau maethu<br>• Cefnogi pob un o’r 22ain o wasanaethau maethu i gasglu gwybodaeth ar rheoli perfformiad blynyddol<br>• Gwella monitro canlyniadau plant a phobl ifanc sy’n derbyn gofal mewn darpariaeth maethu<br>• Datblygu diwylliant o welliant parhaus gan ddefnyddio’r wybodaeth rheoli perfformiad<br>• Alinio’r data perfformiad a gesglir i WCCIS | • Datblygwyd, adolygwyd a diweddarwyd fframwaith perfformiad ac adnoddau cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu<br>• Cynhyrchwyd 3 adroddiad cenedlaethol a rhanbarthol blynyddol - 4ydd adroddiad ar y gweill ar gyfer 19/20 - 20/21<br>• Gwnaed y defnydd gorau o wybodaeth am berfformiad ar lefel leol a rhanbarthol i wella’r modd y darperir gwasanaethau<br>• Troswyd gwybodaeth rheoli perfformiad i greu rhaglenni gwaith rhanbarthol<br>• Mae gwaith yn parhau i alinio’r set ddata â WCCIS |

**Cysoni Ffioedd a Lwfansau i ofalwyr maeth**

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni | Cyflawniadau, canlyniadau a'r camau nesaf |
|---|---|
| • Cysoni polisïau ar gyfer talu ffioedd a lwfansau i ofalwyr maeth awdurdodau lleol<br>• Cynnal ymarfer mapio o ran y ffioedd a'r lwfansau y mae gofalwyr maeth yn eu derbyn mewn awdurdodau lleol, darparwyr annibynnol (masnachol a'r trydydd sector)<br>• Sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder mewn perthynas â thaliadau i ofalwyr maeth<br>• Dyfeisio pecyn cymorth i alluogi gwasanaethau i ymgorffori'r argymhellion yn effeithiol | • Ariannodd Llywodraeth Cymru adolygiad o'r Lwfansau Gofynnol Cenedlaethol, maent yn parhau i archwilio'r cynnwys a'r argymhellion<br>• Ystyriwyd cynnwys polisi cyllid gofalwyr maeth cenedlaethol, ac mae'r gwaith yn parhau ar hyn ar hyn o bryd<br>• Dyluniwyd a chymeradwywyd meini prawf cymhwysedd, proses a thempled asesu<br>• Bydd pecyn cymorth, sy'n dod â'r uchod i gyd at ei gilydd, i gefnogi gwasanaethau gydag unrhyw newidiadau ac argymhellion yn cael ei gyhoeddi |



**Dysgu a Datblygu Gofalwyr Maeth**

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni | Cyflawniadau, canlyniadau a'r camau nesaf |
|---|---|
| • Datblygu fframwaith hyfforddi cenedlaethol i ofalwyr maeth<br>• Sicrhau cyd-ddealltwriaeth a rennir o'r disgwyliadau i ddatblygu gofalwyr maeth<br>• Datblygu offeryn cenedlaethol safonol i'w ddefnyddio gan weithwyr cymdeithasol sy'n goruchwylio wrth asesu a datblygu cynllun datblygiad proffesiynol i ofalwyr maeth<br>• Gwella mynediad at gyflenwi hyblyg a hygyrch, wedi'i fesur mewn oriau dysgu ac yn unol â negeseuon gan ofalwyr maeth<br>• Alinio'r fframwaith â Fframwaith Ymsefydlu Cymru Gyfan ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol | • Cyhoeddwyd y Fframwaith Dysgu a Datblygu Ôl-gymeradwyo i Ofalwyr Maeth, ym mis Mawrth 2019<br>• Mae'r fframwaith wedi'i alinio'n llawn ag AWIFHSC<br>• Cynhaliwyd digwyddiadau lansio rhanbarthol a lleol ledled Cymru<br>• Mae'r gweithredu wedi bod yn hynod lwyddiannus ym mhob un o'r 22 ALl<br>• Mae'r Cofnod Dysgu Personol a'r Cynllun Datblygu wedi'u hymgorffori ym mhob un o'r 22ain ALl, felly'n creu cysondeb<br>• Mae adolygiad ac archwiliad cenedlaethol o ganlyniadau wedi'i drefnu |

**Recriwtio a Chadw gofalwyr maeth**

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni | Cyflawniadau, canlyniadau a'r camau nesaf |
|---|---|
| • Datblygu brand 'Cymru Gyfan' ar gyfer Gofal Maeth Awdurdodau Lleol<br>• Datblygu strategaeth farchnata ac ymgyrch genedlaethol i recriwtio mwy o ofalwyr maeth<br>• Cynyddu gallu awdurdodau lleol i asesu a chefnogi gofalwyr maeth<br>• Sefydlu safonau cenedlaethol ar gyfer recriwtio ac asesu gofalwyr maeth awdurdodau lleol<br>• Creu gallu i Reolwr Marchnata gyflawni'r strategaeth farchnata<br>• Sicrhau cyllid gan LC trwy achos busnes<br>• Cysoni'r 'cynnig' i ofalwyr maeth yr ALl i adeiladu ar gamau cadw | • Datblygwyd a lansiwyd brand 'Maethu Cymru' ar y cyd ym mis Gorffennaf 2021<br>• Cwblhawyd llyfr brand a chreu asedau<br>• Comisiynwyd asiantaeth yr ymgyrch<br>• Datblygwyd a lansiwyd gwefannau Cenedlaethol a Lleol ym mis Gorffennaf 2021<br>• Cyhoeddwyd Canllaw Arfer Gorau ar gyfer Recriwtio Gofalwyr Maeth ym mis Mai 2021<br>• Mae dadansoddiad o anghenion recriwtio a datblygu strategaeth ar y gweill<br>• Sicrhawyd cyllid gan LC tan 2023<br>• Sefydlwyd a chymeradwywyd Ymrwymiad Cenedlaethol (Cynnig Craidd) gan bob un o'r 22ain ALl |

**Unigolion Cysylltiedig / Sy'n Berthnasau**

| Yr hyn yr oeddem yn bwriadu ei gyflawni | Cyflawniadau, canlyniadau a'r camau nesaf |
|---|---|
| • Sefydlu dull cyson o asesu a chefnogi gofalwyr maeth sy'n bobl gysylltiedig<br>• Datblygu modelau arfer gorau ar gyfer:<br>– Hyfywedd ac asesiadau llawn<br>– Hyfforddiant, gwybodaeth a chefnogaeth<br>• Datblygu templed asesu Cymru gyfan | • Canllaw Arfer Da ar gyfer Asesu a Chefnogi Gofalwyr Maeth Sy'n Berthnasau - cyhoeddwyd 2017<br>• Cwblheir adolygiad llawn o'r canllaw arfer da i adlewyrchu newidiadau rheoliadol a datblygiadau ehangach sy'n parhau i ddatblygu<br>• Mae AFA Cymru yn arwain ar ddatblygu'r templed asesu Cymru gyfan o dan y Grŵp Diddordeb Arbennig (GDA) ar gyfer yr Unigolyn Cysylltiedig a rheolwyr tîm GGA |





# 4. Y Data

# Negeseuon o ddata

## Ar ddechrau taith y FfMC un o'r darnau gwaith mwyaf arwyddocaol oedd creu'r set data perfformiad cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau maethu awdurdodau lleol.

Y flwyddyn gyntaf y casglwyd hyn gan y 22ain gwasanaeth oedd am y cyfnod 2016-2017 ac mae wedi parhau bob blwyddyn ers hynny. Mae'r set ddata wedi'i hatgyfnerthu a'i datblygu ymhellach o ganlyniad i adborth gan wasanaethau, ac erbyn hyn mae gennym set ddata sydd wedi ei datblygu'n dda, sy'n cynorthwyo gwasanaethau i gynllunio busnes a dadansoddi perfformiad yn dda.

Dyma rai o'r canfyddiadau mwyaf arwyddocaol o'r data, o'n hystadegau cychwynnol yn 2016-17 i'r data cymharol o'r ffurflenni diweddaraf a dderbyniwyd yn y cyfnod a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020.

Tud. 39



**+ 1,103**

Ar ddechrau'r daith yn 2016, roedd cyfanswm o 5,851 o blant yng Nghymru yn derbyn gofal ac erbyn diwedd mis Mawrth 2020 roedd hyn wedi cynyddu i 6,954. Cynnydd o 1,103 o blant.

**+ 463**

Nododd y set ddata gyntaf yn 2016 fod gofalwyr maeth yr Awdurdod Lleol yn gofalu am 2,142 o blant mewn darpariaeth brif ffrwd a bod 858 o blant yn derbyn gofal gan bobl gysylltiedig. Mae'r set ddata diweddaraf yn dangos gostyngiad bach yn nifer y plant yn ein darpariaeth brif ffrwd, mae hyn yn 2,051, ond mae nifer y plant sy'n derbyn gofal gan bobl gysylltiedig wedi cynyddu i 1,321 o blant.

Dangosodd rhaniad cyffredinol y ddarpariaeth gofal maeth ar ddechrau'r FfMC bod 72% o blant yn byw gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol, 23% o blant yn byw gyda darparwyr Masnachol a 5% yn byw gyda'r Trydydd Sector (nid er elw). Ar ddiwedd y FfMC mae'r rhaniad cyffredinol yn 73% o blant yn byw gyda gofalwyr maeth awdurdodau lleol, 24% o blant yn byw gyda darparwyr Masnachol a 3% gyda'r Trydydd Sector (nid er elw).

Mae mwyafrif y plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth prif ffrwd Awdurdodau Lleol yn byw o fewn eu hawdurdod lleol eu hunain neu ALl gyfagos. Mae llai nag 20 o blant wedi derbyn gofal mewn lleoliad maeth ALl y tu allan i Gymru ers dechrau casglu data ar gyfer y FfMC. O ran y plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth DPA, mae'r nifer sy'n mynd y tu allan i Gymru bron wedi dyblu o 35 o blant pan casglwyd y data cyntaf i 67 o blant ar ddiwedd mis Mawrth 2020.

Pan ddechreuodd y FfMC roedd 1,255 o blant yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth a gymeradwywyd gan DdMA. Mae'r data diweddaraf yn dangos bod hyn wedi cynyddu i 1,324 o blant sy'n byw gyda gofalwyr maeth a gymeradwywyd gan ddarparwyr annibynnol.




O ran y plant hynny sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth a gymeradwywyd gan DMA yn 2016, roedd 532 yn byw yn lleol, o fewn eu ALl eu hunain ac roedd 688 yn byw y tu allan i'w ALl ond yng Nghymru. Yn 2020 roedd hyn wedi newid i 493 o blant yn byw yn eu hardal leol a 764 yn byw gyda gofalwyr maeth y tu allan i'w ALl ond yng Nghymru.

Ledled Cymru ar ddechrau'r rhaglen, roedd cyfanswm o ychydig dros 690 o ofalwyr maeth sy'n bobl gysylltiedig sy'n maethu plant. Roedd y nifer hwn wedi cynyddu i 1,100 o ofalwyr maeth cyswllt cymeradwy erbyn 2020. Mae nifer y gofalwyr cyswllt sydd newydd eu cymeradwyo wedi cynyddu o 282 yn 2017 i 387 ym mis Mawrth 2020. Mae maethu fel person cysylltiedig yn parhau i gynyddu i gynhyrchu mwy o alw am ddarparu gwasanaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn.

Tud. 40

Yn ystod 2016 – 2017 gofynnodd ychydig dros 2,000 o deuluoedd i ddod yn ofalwyr maeth prif ffrwd gydag awdurdodau lleol ac o'r ymholiadau hyn, cymeradwywyd 167 o aelwydydd newydd. Adroddwyd bod 207 o aelwydydd maethu wedi rhoi'r gorau iddi yn yr un cyfnod ac felly nodwyd colled net gyffredinol o 40 aelwyd yn y ffurflen ddata gyntaf. Yn 2020 roedd ymholiadau wedi gostwng i 1,670, ond o'r ymholiadau hyn, cymeradwywyd 169 o aelwydydd newydd i faethu. Collwyd 193 o aelwydydd maethu yn yr un flwyddyn ac felly nododd Awdurdodau Lleol golled net gyffredinol o 24 o aelwydydd.





Nid yw'r setiau data a dderbyniwyd dros y 5 mlynedd diwethaf yn nodi unrhyw newidiadau o ran staffio nac adnoddau a ddarperir i wasanaethau maethu ALl ar lefel genedlaethol.



Canfyddiad allweddol o ffurflenni data'r FfMC yn ystod y 5 mlynedd diwethaf yw'r gwahaniaeth amlwg o ran lleoliad y lleoliad a ddarperir. O'r plant hynny sy'n derbyn gofal gan ofalwyr maeth a gymeradwywyd gyda darparwyr maethu annibynnol a'r trydydd sector ar ddiwedd mis Mawrth 2020, cafodd 5% eu gosod gyda gofalwyr sy'n byw y tu allan i Gymru, roedd 58% yn byw gyda gofalwyr maeth y tu allan i'w hawdurdod lleol a dim ond 37% o blant sy'n parhau i fyw yn eu hardal leol.

Wrth gymharu hyn â lleoliad plant sy'n byw gyda gofalwyr maeth a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Lleol, mae 1% yn byw gyda gofalwyr maeth sy'n byw y tu allan i Gymru, mae 15% o blant yn byw gyda gofalwyr maeth y tu allan i'w ALl ond yng Nghymru ac mae 84% o blant yn parhau i allu byw gyda gofalwyr maeth yn eu hardal leol eu hunain. Po fwyaf yw'r defnydd o ddarpariaeth maethu ALl, uchaf oll yw'r tebygolrwydd y bydd plant yn aros yn eu hardal eu hunain.

Gwyddom o wrando ar blant ac adolygu canfyddiadau ymchwil fod plant sy'n gallu byw gyda gofalwyr maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu a chyflawni eu potensial llawn. Mae'n amcan craidd i bob ALl recriwtio mwy o ofalwyr maeth awdurdodau lleol i allu darparu'r gofalwyr maeth cywir i blant, yn y lleoliad cywir ac i gadw plant wrth wraidd y ddarpariaeth faethu yng Nghymru.

## NEGESEUON ALLWEDDOL

Mae adeiladu ein darpariaeth maethu fewnol yn hanfodol er mwyn parhau i wella canlyniadau i blant. Mae hyn yn golygu symud cydbwysedd gofal ac adnoddau i'n timau maethu i alluogi twf, a'r gallu i ymateb i'r galw gan archwilio ffyrdd newydd o adeiladu darpariaeth amgen fel maethu rhieni a phlant, gwasanaethau seibiannau cymorth a ffocws ar adeiladu gweithlu maethu sydd wedi'i rymuso i gefnogi cynlluniau ailuno ar gyfer plant pan fydd yn ddiogel gwneud hynny. Mae'r data'n dangos gwahaniaethau allweddol yn lleoliad lleoliadau plant sy'n gysylltiedig â'r darparwr, gyda phlant sydd wedi'u gosod yn narpariaeth awdurdod lleol yn llawer mwy tebygol o allu aros o fewn eu hawdurdodau. Rhaid i ni ymdrechu i wneud y mwyaf o leoliadau lleol er mwyn i blant gynnal cysylltiadau pwysig.

Mae darpariaeth maethu pobl gysylltiedig wedi nodi twf net yn y galw flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae angen i ni sicrhau bod gennym y gallu i ymateb i'r twf hwn neu i ystyried ffyrdd eraill sy'n effeithiol i sicrhau y gall plant aros o fewn trefniadau person cysylltiedig. Mae angen ystyried ymhellach y dewisiadau eraill sy'n cefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd y tu allan i drefniadau maethu. Mae angen i ni hefyd reoli'r gwaith pwysig hwn mewn ffordd nad yw'n effeithio ar ein gallu i reoli darpariaeth maethu prif ffrwd yn effeithiol.

Mae darpariaeth maethu prif ffrwd yn parhau i adrodd am golled net yng nghyfanswm yr aelwydydd sy'n cael eu cymeradwyo. Rhaid inni ymdrechu i wella nifer yr ymholiadau, trosiadau a chymeradwyaethau newydd a wneir bob blwyddyn a chadw ein gofalwyr maeth trwy ddarparu'r cynnig cadw a'r gwasanaethau cymorth gorau y gallwn.






# 5. Rhaglenni Gwaith Rhanbarthol

# Y rhanbarthau

Rhan fawr o raglen waith y FfMC fu datblygu'r dull rhanbarthol o ymdrin â rhai agweddau ar wasanaethau maethu. Mae Cymru wedi'i rhannu'n chwe rhanbarth, dan oruchwyliaeth Reolwyr Datblygu Rhanbarthol.

| Rhanbarth | Awdurdodau Lleol |
|---|---|
| Gogledd Cymru | Ynys Mon, Gwynedd, Conwy, Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceredigion, Powys, Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro |
| Gorllewin Morgannwg | Abertawe, Castell-nedd Port Talbot |
| Gwent | Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Casnewydd, Caerffili, Torfaen |
| CwmTaf Morgannwg | Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | Caerdydd, Bro Morgannwg |






# Gogledd Cymru

**Adroddiad Rhanbarthol 2018 – 2021**
**Gwblhawyd gan Mel Panther**

Gwynedd, Ynys Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam





Mae rhanbarth Gogledd Cymru yn cynnwys morlin hir Gogledd Cymru o ymylon Pen Llyn yng Ngwynedd, i Ynys Môn, trwy Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint i Wrecsam ar y ffin. Mae yna ardaloedd gwledig mawr yn ogystal â chytrefi sylweddol fel Bangor, Llangefni, Llandudno, y Rhyl, y Fflint a dinas Wrecsam.

Mae'r rhanbarth yn rhannu ôl troed daearyddol gyda Bwrdd Diogelu, y Farnwriaeth, Cafcass Cymru, y Bwrdd Iechyd, yr Heddlu, y Gwasanaeth Prawf a Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru. Rydym yn parhau i adeiladu ar y gallu a'r parodrwydd i weithio gyda'n gilydd.

Mae'r rhanbarth wedi gweithio'n galed i ddatblygu dull Gogledd Cymru o ran rhannu gwybodaeth ac arfer da, gan ddatblygu dulliau cyfathrebu cadarnhaol ymhellach rhwng y chwe awdurdod lleol. Mae cyfarfod misol y rheolwyr maethu rhanbarthol wedi bod yn ganolog yn y datblygiad hwn ac mae wedi arwain at ddatblygu grwpiau rhanbarthol pellach fel yr agenda a rennir gan y ddau dîm teulu a ffrindiau ymroddedig yn yr ardal yn ogystal â chyfarfodydd rheolaidd yr unigolion recriwtio a chadw yn yr ardal, dan arweiniad y swyddog marchnata rhanbarthol, sy'n allweddol o ran hyrwyddo'r agenda cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'r rheolwr datblygu rhanbarthol yn cysylltu rhwng y gwahanol gyfarfodydd, mae hyn wedyn yn rhoi sylwedd uniongyrchol i'r trafodaethau a gynhelir yng nghyfarfodydd penaethiaid y gwasanaeth ac mae'n cynorthwyo i ddatblygu'r ffrydiau gwaith.

Mae Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu ei ddull cyson o ddiwallu angen yn rhanbarthol a sicrhau profiadau cyson i'w ofalwyr maeth, ymgeiswyr i fod yn ofalwyr maeth, aelodau panel a rhanddeiliaid eraill.

Mae'r rhanbarth wedi mabwysiadu'r canllaw arfer da i bobl gysylltiedig fel arfer da yn rhanbarthol ac mae'n parhau i ddatblygu ei ddull rhanbarthol o gyflwyno'r fframwaith dysgu a datblygu ar eu cymeradwyo. Mae'r ailddatblygiad angenrheidiol hwn dros y flwyddyn ddiwethaf yn adlewyrchu effaith dysgu digyswllt / ar-lein ac addasu cyflwyno'r dysgu i blatfform ar-lein.



## ENGHRAIFFT O ARFER DA GAN OGLEDD CYMRU





**Sir y Flint Rhaglen Mockingbird**

Rhanbarth Gogledd Cymru yw'r unig ardal yng Nghymru sy'n gweithredu rhaglen Mockingbird. Mae awdurdod lleol Sir y Fflint wedi arwain y ffordd i Gymru ac ar ôl cynllunio a recriwtio'n llwyddiannus, maent bellach yn cefnogi twf menter ragorol mewn ymarfer maethu arloesol.

Mae Sir y Fflint wedi arwain y rhanbarth, gyntaf oll yn treialu ac erbyn hyn yn rhedeg ei raglen Mockingbird, ac ym mis Chwefror eleni lansiwyd ei 2il gasgliad o Mockingbird. Bellach mae ganddyn nhw ddau gasgliad ar waith yn cynnwys 13 o deuluoedd maethu sy'n cefnogi 14 o blant sy'n derbyn gofal, 4 o bobl ifanc yn 'Pan Fyddaf yn Barod' ac 11 o blant biolegol.

Gofalwr, yr Hwb "I mi yn bersonol, mae'r buddion wedi golygu grŵp cynnes a chefnogol o bobl o'r un anian, a roddodd cymaint o help i mi ag yr wyf wedi eu helpu nhw trwy'r cyfnod anodd hwn ... Mae wedi bod yn wych bod yn rhan o raglen gyntaf Mockingbird. Mae'r gefnogaeth gan gymheiriaid wedi bod yn wych, ac, ar y cyd, rydym yn cael cymaint allan o'r fath ffordd newydd o weithio."

Fe wnaeth gofalwr maeth arall sôn am y gwahaniaeth y mae Mockingbird yn ei wneud i'r plentyn sy'n derbyn gofal ganddi, "Mae Mockingbird wedi bod yn wych iddi ac yn fuddiol iawn gan ei fod wedi rhoi llawer o gyfleoedd iddi gwrdd â phobl newydd, gwella'i gallu i gymdeithasu a chyfathrebu sydd wedi gwella ei hyder"


Yn ddiweddar, fe wnaeth gofalwr hwb a gweithiwr cymdeithasol cyswllt Sir y Fflint gymryd rhan ym mhanel Cynhadledd Effaith Mockingbird Y Rhwydwaith Maethu, ochr yn ochr â'r prif siaradwr Vicky Ford (y Gweinidog Plant a Theuluoedd). Mae'r rhanbarth yn edrych ymlaen at rannu ei lwyddiant gyda sawl gwasanaeth, gan nodi amseroedd priodol mewn amgylchiadau anodd i ddilyn arweiniad yr asiantaeth.

Sir y Flint Rhaglen Mockingbird

# Canolbarth a Gorllewin

**Adroddiad Rhanbarthol 2018 – 2021**
**Gwblhawyd gan Sue John Evans**

Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Penfro, Powys



Mae rhanbarth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cwmpasu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae'r rhanbarth yn cynnwys ardal ddaearyddol eang yng Nghymru, sy'n cyfuno cyfuniad o boblogaethau gwledig ynysig a threfol. Mae'r rhanbarth yn ystyriol o hunaniaethau awdurdodau lleol unigol y mae gwahanol anghenion diwylliannol, cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd yn eu diffinio ac yn dylanwadu arnynt. Mae'r ôl troed rhanbarthol ar gyfer maethu yn cyfateb i ôl-troed y cwmni cydweithredol rhanbarthol mabwysiadu a'r bwrdd diogelu.

Ym mis Rhagfyr 2017 penododd y rhanbarth Reolwr Datblygu Rhanbarthol llawn amser drwy secondiad. Y ffocws cychwynnol a pharhaus o hyd yw hwyluso a sefydlu cyfathrebu ac ymgysylltu ledled y rhanbarth a chysylltu â fforymau cenedlaethol i yrru'r newidiadau fel y'u nodwyd yn agenda'r FfMC.

Fel rhanbarth mae ein perthynas waith gyfathrebol yn dibynnu ar rannu syniadau, arferion a pholisïau. Rydym yn dod yn well o lawer am weithio gyda'n gilydd, sy'n esblygu dros amser ac mae tystiolaeth o'n hymrwymiad cadarn fel pedair sir i gefnogi'r amcanion a nodwyd fel y nodir yn ein cynllun gwaith rhanbarthol. Gellir gweld tystiolaeth glir o gyd-gynhyrchu rhanbarthol yn y cyfarfodydd rheolaidd sy'n galluogi'r gwerthoedd cyffredin sydd gennym i lywio cynllunio a darparu datblygiadau maethu rhanbarthol.

Mae ein dull rhanbarthol yn cefnogi ailfodelu gwasanaethau maethu mewn modd organig a systemig i wella canlyniadau i blant / pobl ifanc sy'n derbyn gofal ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae ein gweithgorau rhanbarthol rheolaidd, yn cynnwys cyfarfod â rheolwyr y tîm maethu a rheolwyr y gwasanaeth maethu. Mae hyn yn helpu i yrru'r rhaglen waith rhanbarthol yn unol â'r themâu gwaith allweddol a nodwyd, i ddarparu gwasanaethau effeithiol, o ansawdd, wrth reoli heriau yn nhermau adnoddau o fewn cyfyngiadau gofynion y gyllideb.

Fel rhanbarth, un o'n hamcanion allweddol dros y tair blynedd diwethaf oedd mynd i'r afael â'n heriau recriwtio a marchnata, denu a chymeradwyo ystod a nifer fwy amrywiol o ofalwyr maeth i gyflawni prosesau paru a arweinir gan anghenion yn well. Roedd y rhanbarth am ddarparu dewis o ran lleoliad a lleihau'r defnydd o Asiantaethau Maethu Annibynnol / Masnachol a lleoliadau preswyl, ymhellach.

Mae ein gweledigaeth ranbarthol yn edrych tuag at ystyried un Strategaeth Maethu ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru; gan ystyried naws leol ac unigoliaethol pob sir; mae datblygiad ac effeithiolrwydd un strategaeth faethu ranbarthol gyffredinol i'w hystyried ymhellach.

Her i'w hystyried ar gyfer y dyfodol: sut allwn ni strwythuro ein gwasanaethau maethu yn well er mwyn blaenoriaethu ein dyletswydd i ymateb i wrandawiadau gofal plant dan gyfarwyddyd llys ar gyfer Pobl Gysylltiedig, gan flaenoriaethu'r angen i asesu a chreu adnoddau gofal maeth newydd i ddarparu ystod o leoliadau gofal maeth prif ffrwd.

Mae angen ychwanegu staff busnes a gwaith cymdeithasol atodol i gefnogi'r gwaith yn ei ystyr lawnaf. Byddai buddsoddiad cynyddol yn gwella ac yn cefnogi datblygiad rhanbarthol pellach, er mwyn cyflawni unrhyw newid gwirioneddol, blaengar, fel y nodwyd yn agenda gwreiddiol y FfMC.

## ENGHRAIFFT O ARFER DA – CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

**Sir Penfro**
**RÔL MENTOR CYMHEIRIAID GOFALWYR MAETH**

Pwrpas rôl Mentora Cymheiriaid yw darparu haen ychwanegol o gefnogaeth i ofalwyr maeth, gyda'r nod o ddatblygu'r sgil a deall gofalwyr maeth sydd newydd eu cymeradwyo a'r rheini sy'n llai profiadol. Mae hyn yn arwain at leoliadau cynaliadwy a gwell canlyniadau i blant wrth roi cyfle i'r mentoriaid ehangu ar eu datblygiad proffesiynol a phersonol. Cylch gwaith y mentor yw rhannu ei brofiad, cynnig cefnogaeth a thrafod problemau y gall y mentorai fod yn eu hwynebu, ac, yn y pen draw, helpu'r mentorai i ddatrys problemau wrth iddo ddatblygu ei ymarfer. Mae'r Mentor Cymheiriaid hefyd yn darparu anogaeth a chefnogaeth i'r mentorai o ran cymryd rhan mewn hyfforddiant priodol ac i fod yn gyfrifol am ei ddatblygiad personol ei hun. Gall Mentor Cymheiriaid ddarparu cefnogaeth emosiynol (cefnogi mentorai trwy honiadau ac ee darparu cyngor y tu allan i oriau), cymorth ymarferol yn ogystal â chynnig arweiniad pan fydd gan ei fentorai leoliad cyntaf neu pan fydd lleoliad yn dod yn arbennig o heriol. Bydd Mentor Cymheiriaid yn cynorthwyo mentoreion gofalwyr maeth i ganfod nodau a thasgau priodol a bydd yn eu cefnogi i weithio tuag at gyflawni'r rhain.

Anogir Mentor Cymheiriaid i gadw cysylltiad â'r sawl sy'n derbyn gofal maeth, a hynny wyneb yn wyneb, yn fisol, ar amser a dyddiad y cytunwyd arno. Cytunir ar hyn mewn cyfarfod cyflwyno cychwynnol rhwng y Mentor a'r Mentorai a hwylusir gan y Cydlynydd Mentor Cymheiriaid. Yn ogystal â hyn, anogir cyswllt dros y ffôn/e-bost/neges testun.

Yn ogystal â hyrwyddo a chymryd rhan drwy werthuso'r cynllun mentora cymheiriaid, gofynnir hefyd i Fentoriaid Cymheiriaid:

i) Gymryd rhan yn y cyrsiau hyfforddi Sgiliau i Faethu ac unrhyw hyfforddiant arall y bernir ei fod yn briodol, fel hyfforddiant P&C.

ii) Mynychu sesiynau gwybodaeth a digwyddiadau recriwtio eraill

iii) Mynychu digwyddiadau hyfforddi a grwpiau cymorth gyda mentoreion gofalwyr maeth

iv) Cynorthwyo i recriwtio staff a gofalwyr maeth

Mae Mentor Cymheiriaid yn ofalwr maeth profiadol y mae'r gwasanaeth maethu yn ystyried bod ganddo'r set sgiliau a'r rhinweddau priodol i gefnogi hyd at bump o fentoreion gofal maeth ar unrhyw un adeg. Darperir hyfforddiant a sesiwn ymsefydlu ar gyfer Mentoriaid Cymheiriaid cyn iddynt gyflawni'r rôl, a bydd disgwyliadau'r rôl yn hollol glir. Anogir Mentoriaid Cymheiriaid i fynychu grŵp cymorth chwarterol i fentoriaid, ac fe'u cefnogir gan eu GCG yn ogystal â chydlynydd y cynllun Mentora Cymheiriaid sy'n cynnig goruchwyliaeth ffurfiol bob chwe wythnos i'r Mentoriaid Cymheiriaid. Disgwylir i Fentoriaid Cymheiriaid gydymffurfio â pholisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth maethu ac yn benodol y polisïau cyfrinachedd a'r polisïau cofnodi sy'n ymwneud â'r cynllun mentora cymheiriaid. Mae'r Mentor Cymheiriaid yn cael taliad misol am ei amser.

Mae'r weledigaeth ranbarthol yn ystyried datblygu gwasanaethau maethu wedi'u hadeiladu ar gysondeb rhanbarthol, arfer gorau ac ansawdd, wrth nodi anghenion a naws lleol wrth ddatblygu model un dull. Mae'r dull integredig hwn, yn cynnwys yr holl randdeiliaid, ac mae'n cynnwys haen strategol, weithredol ac ymarfer. Rydym bob amser yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl bwysig a heriol ein gofalwyr maeth; a thrwy ddarparu gwasanaethau cymorth, gan gynnwys cyfleoedd dysgu a datblygu, gweithiwn i gadw ein Gofal Maeth a Phan Fyddaf yn Barod (WIR) cymeradwy a phrofiadol.




# Gorllewin Morgannwg

**Adroddiad Rhanbarthol 2018 – 2021**
**Cwblhawyd gan Nicola England**

Castell-nedd Port Talbot, Abertawe





Mae rhanbarth Gorllewin Morgannwg yn cwmpasu Awdurdodau Lleol Castell-nedd Port Talbot (CNPT) ac Abertawe, y rhanbarth a enwyd yn flaenorol yn 'Bae'r Gorllewin', sydd wedi ei chynnwys yn Awdurdod Lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Yn 2019 daethpwyd i benderfyniad i Ben-y-bont ar Ogwr ymuno â rhanbarth Cwm Taf a ysgogodd i Ail-enwi Bae'r Gorllewin yn Orllewin Morgannwg. Mae'r rhanbarth yn ymochri ar ardal bwrdd iechyd Bae Abertawe. Mae'n wahanol i ardal ranbarthol mabwysiadu gan fod symudiad Pen-y-bont ar Ogwr mewn perthynas â maethu yn unig.

Mae gan Abertawe a CNPT boblogaeth a demograffeg o wahanol feintiau a all effeithio ar anghenion a chyfeiriad pob gwasanaeth. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i wella cyfleoedd i gydweithredu'n rhanbarthol.

Dechreuodd yr RhDRh cyfredol yn ei rôl ym mis Mehefin 2020 yn dilyn cyfnod lle'r oedd y swydd yn wag am 12 mis. Erbyn cychwyn y rôl RhDRh roedd Covid-19 wedi gafael yn y genedl. Roedd angen dod o hyd i ddulliau newydd o feithrin perthnasoedd a rhwydweithiau, ochr yn ochr â'r gofynion ychwanegol a gystadlai â'r galw yn sgil y pandemig. Croesawodd aelodau staff ledled y rhanbarth agenda'r FfMC a chydweithio i weithredu newidiadau trwy gyfnodau anodd a heriol iawn, sy'n amlwg yn y cynnydd a wnaed hyd yma.

Ym mis Tachwedd 2019, lansiwyd fframwaith dysgu a datblygu'r FfMC i'r sawl sy'n cael eu cymeradwyo, a hynny adeg digwyddiad rhanbarthol. Roedd staff y gwasanaeth maethu, uwch reolwyr, aelodau panel a gofalwyr maeth yn bresennol. Cafodd y lansiad dderbyniad da, ac mae'r fframwaith wedi'i ymgorffori ledled y rhanbarth. Dyfeisiwyd cwrs e-ddysgu gan y rhanbarth i gefnogi gofalwyr maeth i ddod i ddeall y fframwaith ac i'w cynorthwyo i addasu arfer yn unol â'r gofynion newydd.

Mae'r cofnod dysgu personol a'r cynllun datblygu wedi'u hymgorffori mewn prosesau adolygu ac asesu blynyddol. Bydd hyn yn cynorthwyo paneli maethu lleol i wneud argymhellion gwybodus. Bydd y rhanbarth yn cynnal adolygiad llawn o'r gweithredu.

Ym mis Hydref 2020, cyflwynodd Gorllewin Morgannwg gynnig i'r Rhwydwaith Maethu i arwain raglen beilot Cyngor a Chyfryngu Annibynnol, a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Llwyddodd Gorllewin Morgannwg i sicrhau'r peilot, a lansiwyd y gwasanaeth hwn yn llawn ym mis Chwefror 2021. Mae gweithiwr llawn amser penodol bellach ar waith i gyflawni'r rôl hon. Mae'r rhaglen yn darparu lefel ychwanegol o gefnogaeth i ofalwyr maeth a staff maethu. Pwrpas y rhaglen yw hyrwyddo lleoliadau sefydlog, cynyddu cyd-gynhyrchu, cadw gofalwyr maeth a lleihau pryderon a chwynion.

Mae gwasanaethau maethu CNPT ac Abertawe yn cwrdd yn rheolaidd fel cydweithrediad. Mae nifer o gyfarfodydd rhanbarthol ar waith i ganiatáu i wasanaethau gyfathrebu a throi at ein gilydd am gefnogaeth, rhannu arfer da, gan gydnabod ein bod ni ar y cyd yn gryfach, a gyda'n gilydd gallwn sicrhau canlyniadau gwell i blant ar draws yr awdurdodau.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen rhanbarthol wedi'i sefydlu i lunio llawlyfr rhanbarthol i Ofalwr Maeth gan ddefnyddio dulliau cyd-gynhyrchu. Roedd y gwasanaethau maethu yn cydnabod bod angen diweddaru'r llawlyfrau cyfredol; cytunodd y rhanbarth y byddai hyn yn fwy buddiol ar y cyd, fel rhanbarth. Fel rhan o'r gwaith hwn, bydd y rhanbarth yn mapio polisïau a gweithdrefnau cyfredol, lle nodir bod angen diweddaru'r rhain, rhoddir ystyriaeth i'r rhain gael eu hadolygu fel dogfennau rhanbarthol.

## ENGHRAIFFT O ARFER DA GAN ORLLEWIN MORGANNWG

**Maethu Rhiant a Phlentyn a chefnogaeth cymunedol**

Mae'r awdurdodau lleol yn y rhanbarth hwn wedi gweithio gyda'i gilydd i wella'r cynnig mewn perthynas â lleoliadau maethu ar gyfer rhiant a phlentyn. Mae'r rhanbarth yn un o'r unig ardaloedd i gynnig darpariaeth gymunedol i riant a phlentyn. Mae'r gwasanaeth hwn yn defnyddio gofalwyr maeth cymeradwy sydd â phrofiad o weithio gyda theuluoedd i weithio ochr yn ochr â gweithwyr proffesiynol eraill fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn. Mae'n codi darpariaeth Rhiant a Phlentyn i lefel newydd ac mae'n enghraifft wych o ymarfer sy'n canolbwyntio ar y plentyn at sy'n darparu gwasanaeth ataliol.

Mae'r rhanbarth yn archwilio ffyrdd o gynyddu nifer y gofalwyr maeth RhaPh ac yn aml cysylltir â nhw i ddarparu cyngor ac arweiniad i wasanaethau eraill sydd am ehangu i'r ddarpariaeth hon. Mae'r gefnogaeth gymunedol i rieni a phlant wedi dangos canlyniadau da ac mae'n profi i fod yn ffordd effeithiol o sicrhau y gall plant barhau i fyw gyda'u teuluoedd gyda'r gefnogaeth gywir a'r mynediad at wasanaethau. Tra hefyd yn cefnogi'r angen i sicrhau y darperir gwasanaeth cynaliadwy.


Yn ddiweddar, mae'r rhanbarth wedi lansio grŵp cymorth rhanbarthol ar gyfer gofalwyr maeth rhieni a phlant. Mae'r grŵp yn cydnabod y rôl arbenigol y mae'r gofalwyr maeth hyn yn ei chyflawni ac mae'n darparu fforwm ar gyfer cyd-gefnogaeth a myfyrio i gymheiriaid. Mae hon yn garreg filltir i'r rhanbarth ac maent yn falch eu bod wedi dod ynghyd i ddarparu'r fath wasanaeth cymorth a rennir i ofalwyr maeth sydd wedi croesawu'r cyfle.



# Cwm Taf Morgannwg

**Adroddiad Rhanbarthol 2018 – 2021**
**Gwblhawyd gan Alastair Cope**

Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf





Mae rhanbarth Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys tri Awdurdod Lleol, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Yn flaenorol, Cwm Taf oedd enw'r rhanbarth, ac roedd yn cynnwys RCT a Merthyr Tudful, fodd bynnag ym mis Ebrill 2019 ar ôl newid patrwm daearyddol y rhanbarth, fe adawodd Pen-y-bont ar Ogwr rhanbarth Bae'r Gorllewin ac ymuno â rhanbarth Cwm Taf i ffurfio Cwm Taf Morgannwg. Mae'r rhanbarth wedi'i alinio'n llawn ag ôl troed y bwrdd iechyd sy'n cwmpasu'r ardal hon. Mae'r ôl troed rhanbarthol o ran mabwysiadu yn wahanol gan fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi aros gyda Chastell-nedd Port Talbot ac Abertawe o dan ymbarél Bae'r Gorllewin ac o ran mabwysiadu mae dau awdurdod arall yn ymuno â Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful.

Penodwyd Rheolwr Datblygu Rhanbarthol llawn amser yn y rhanbarth ym mis Awst 2018 er mwyn cydlynu datblygiad gwahanol ffrydiau gwaith y FfMC a chyfarfu'r gweithgor rhanbarthol yn fisol i ddechrau.

Mae'r rhanbarth hefyd wedi canolbwyntio ar weithredu Fframwaith Dysgu a Datblygu Cenedlaethol y FfMC i ofalwyr maeth, a chynhaliwyd digwyddiad lansio rhanbarthol ym mis Tachwedd 2019, gyda dros 90 o bobl yn bresennol, yn cynnwys gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol, rheolwyr tîm ac aelodau panel. Roedd yr adborth yn gwbl gadarnhaol yn dilyn y digwyddiad, ac yn ei dro arweiniodd at ffurfio gweithgor dysgu a datblygu rhanbarthol ym mis Ionawr 2020, a oedd yn cynnwys gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a gofalwyr maeth o'r tri Awdurdod lleol. Mae'r dull hwn wedi sicrhau cysondeb o ran dysgu a datblygu i bob gofalwr maeth ledled y rhanbarth.

Mae Cwm Taf Morgannwg wedi hyrwyddo diwylliant o rannu gwybodaeth ac arfer da. Arweiniwyd hyn gan y gweithgor rhanbarthol, sy'n cynnwys penaethiaid gwasanaeth a rheolwyr gwasanaeth. Mae cyfathrebu cyson hefyd yn bodoli rhwng y RhDRh a'r Rheolwyr Tîm maethu ar draws pob un o'r tri ALl.

Mae'r RhDRh wedi ystyried cynnig craidd rhanbarthol ar gyfer gofalwyr maeth, a chyflwyno yn ôl i'r Grŵp Strategol Rhanbarthol. Cytunodd y grŵp yn unfrydol o blaid mabwysiadu'r Ymrwymiad Cenedlaethol yn ogystal â chytuno lle mae'r rhanbarth wedi ei alinio o ran yr hyn y mae'n ei gynnig i'w garfan gofalwyr maeth cyfredol, bydd hyn yn cynnig cysondeb i'r rhai sy'n gwneud cais i ddod yn ofalwyr maeth ledled y rhanbarth, gan ddarparu cryfder ychwanegol yn y maes recriwtio.

## ENGHRAIFFT O ARFER DA GAN GWM TAF MORGANNWG

**Drws Blaen Rhanbarthol ar gyfer Recriwtio i Faethu**

Ym mis Medi 2018, ar ôl ymgynghori â Phenaethiaid a Rheolwyr y Gwasanaeth yng ngweithgor rhanbarthol y FfMC, penderfynwyd, er mwyn gweithio ar y cyd yn rhanbarthol, y byddai Gwasanaethau Maethu yn CBSRCT a CBSMT yn elwa o weithredu drws blaen rhanbarthol, i ddelio â'r holl ymholiadau maethu, prosesu ceisiadau, cydlynu'r swyddogaeth farchnata a chefnogi darpar ofalwyr trwy'r broses.

Mae'r rhanbarth wedi penodi swyddog marchnata a swyddog recriwtio llawn amser, sydd felly'n ffurfio tîm rhanbarthol sy'n ymateb i ymholiadau maethu yn rhanbarth Cwm Taf, gyda chefnogaeth strategaeth farchnata glir, hirdymor.



Trwy ddatblygu a gweithredu strategaeth farchnata sy'n sicrhau ein bod yn ymgyrchu'n barhaus ac yn codi ymwybyddiaeth ynghylch gofal maeth yr Awdurdod Lleol yn gyffredinol ac yn benodol yn denu pobl yng Nghwm Taf i ystyried a allent ddod yn ofalwr maeth naill ai i Ferthyr Tudful neu RCT.

O 1 Ebrill 2019, mae CBSRCT a CBSMT wedi bod yn gweithio ar y cyd i weithredu Drws Blaen Rhanbarthol i recriwtio gofalwyr maeth. Mae'r tîm yn cynnwys Rheolwr Datblygu Rhanbarthol, Swyddog Recriwtio Rhanbarthol a Swyddog Cyfathrebu a Marchnata Rhanbarthol. Mae'r tîm recriwtio yn hwyluso pob ymholiad, ymweliadau recriwtio, gweithgareddau marchnata ac ymweliadau cychwynnol hyd at y pwynt asesu. Ar gyrraedd y pwynt asesu, trosglwyddir yr ymgeisydd i'r rheolwr Tîm sy'n gyfrifol am asesiadau maethu asesiadau ym mhob ALl.

Mae'r rhanbarth yn falch o adrodd eu bod yn parhau i gyflawni'r holl dargedau a'r disgwyliadau arfer da a osodwyd o ran gweithgareddau recriwtio yn genedlaethol.

Ers lansio'r drws blaen mae'r gyfradd trosi o'r Ymchwiliad Cychwynnol i'r Ymweliad Cychwynnol cyn asesu wedi cynyddu o 26.3% i 40.9%. Cefnogwyd hyn gan swyddog recriwtio ymroddedig sy'n cynnig cysondeb trwy gydol y broses newydd sydd wedi'i haddasu, a'r ffaith y gellir symud ymlaen i'r cyfnod ymweld â'r cartref yn gyflymach. Mae cael gwasanaeth ymatebol yn lleol yn parhau i fod o fudd.

Mae'r gyfradd trosi o'r ymholiad cychwynnol i fynd ymlaen i asesiad llawn wedi cynyddu o 13.2% i 17.2%. Mae'r amserlenni ar gyfer y broses YC wedi gwella'n sylweddol. Mae cyfarfodydd monitro rheolaidd rhwng y Swyddog Recriwtio a'r Rheolwr Asesiadau ac mae rywfaint o allu yn y gwasanaeth i ddyrannu asesiadau Ffurflen F i gynorthwyo'r gwelliant hwn, ochr yn ochr â datblygu cwrs sgiliau maethu ar-lein.

Mae amseroedd ymateb o'r ymholiad cychwynnol i'r alwad recriwtio ddilynol, ymweliad cychwynnol a dyrannu asesiadau ffurflen F wedi gwella'n sylweddol o gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol. Eto, gellir priodoli hyn i argaeledd ymgeiswyr yn ogystal â staff ymroddedig wrth y drws blaen.


Mae cynlluniau ar waith ar gyfer cydweithio'n rhanbarthol â CBSPBO a disgwylir iddynt ymuno â'r drws blaen rhanbarthol ym mis Ebrill 2021, gyda'r gwaith gweithredu yn cael ei wneud ar hyn o bryd. Y gobaith yw y bydd hyn yn adeiladu ar y drws blaen rhanbarthol presennol ac y bydd ymgyrchoedd rhanbarthol yn cael eu harchwilio i rannu adnoddau a denu gofalwyr maeth newydd i'r tri Awdurdod Lleol.

# Gwent

**Adroddiad Rhanbarthol 2018 – 2021**
**Gwblhawyd gan Nina Kemp-Jones**

Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd, Torfaen





Mae'r rhanbarth a elwir yng Ngwent, yn cynnwys 5 awdurdod lleol, pob un yn wahanol o ran maint a demograffeg. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi'u lleoli'n agos at ei gilydd ac yn ddaearyddol mae'r rhanbarth yn fach o'i gymharu â rhanbarthau eraill. Mae'r ôl troed rhanbarthol wedi'i alinio â bwrdd iechyd prifysgol Aneurin Bevan, gwasanaeth heddlu Gwent, a gwasanaeth mabwysiadu De Ddwyrain Cymru.

Mae'r RhDRh wedi bod yn y swydd yn y rhanbarth hwn ers 2017, Gwent oedd yr ardal gyntaf i gydnabod pwysigrwydd y rôl hon ac mae'r rhanbarth yn ddigon ffodus i gadw'r un unigolyn yn y swydd am y cyfnod cyfan.

Mae amserlen reolaidd o gyfarfodydd rhwng y RhDRh, rheolwyr y tîm lleoliadau, cyfathrebu corfforaethol, datblygu'r gweithlu, rheolwyr perfformiad, a phenaethiaid gwasanaeth rhanbarthol wedi'u sefydlu'n dda ac yn gweithredu'r rhaglen waith rhanbarthol, sy'n cael ei diweddaru'n rheolaidd ac sy'n cyd-fynd â'r rhaglen waith genedlaethol.

Mae'r rhanbarth wedi sefydlu cylchlythyr i staff, gofalwyr maeth a rhanddeiliaid sy'n helpu i hysbysu pobl allweddol ynghylch datblygiadau ynghyd â phresenoldeb parhaus a chysylltiad â'r FfMC a'r RhDRh.

Mae grŵp recriwtio a marchnata rhanbarthol wedi'i hen sefydlu ac wedi cyfarfod yn rheolaidd ers 2018 i ddatblygu mentrau a dulliau rhanbarthol o farchnata a recriwtio.

Cwblhawyd Dadansoddiad o Anghenion Recriwtio ar gyfer pob ALl sy'n adlewyrchu'r galw ar hyn o bryd a'r galw a ragwelir yn unol â'r gwaith ail-frandio cenedlaethol. Mae'r capasiti a'r strwythur sy'n ofynnol ym mhob ALl i ateb y galw a ragwelir wedi ei gynnwys.

Lansiwyd y Fframwaith Dysgu a Datblygu yng Ngwent mewn digwyddiad rhanbarthol ym mis Tachwedd 2019. Mae cytundeb rhanbarthol ar gyfer gofalwyr maeth yn mynd rhagddo, ac mae elfennau craidd cyffredinol, rhanbarthol o gofnodion goruchwylio hefyd wedi'u cyflwyno o ganlyniad i adborth yn dilyn y lansiad yn 2019. Mae adolygiad o'r Fframwaith Dysgu a Datblygu wrth ymarfer yn cael ei gynnal ar draws Gwent ar hyn o bryd.

Mae'r Ymrwymiad Cenedlaethol wedi'i gymeradwyo'n llawn yn y rhanbarth hwn; mae gwaith ar y gweill i sicrhau y gellir cyflawni'r disgwyliadau.

Rydym wedi mapio ein holl bolisïau gwasanaethau maethu ledled y rhanbarth, gan nodi pa rai y mae angen eu diweddaru a'u blaenoriaethu yn unol â'r rheoliadau cyfredol. Rydym wedi gweithio ar ddatblygu cymaint o bolisïau rhanbarthol â phosibl. Mae gwasanaethau'n rhannu polisïau newydd ledled y rhanbarth er cysondeb ac er mwyn osgoi dyblygu ac mae llawlyfr rhanbarthol cyffredinol ar gyfer gofalwyr maeth yn cael ei ddatblygu.

Mae Gwent hefyd yn arwain y gwaith i ymgorffori'r Data Gwybodaeth ar Berfformiad a gesglir yn WCCIS a sicrhau ansawdd i allu riportio gwybodaeth i'r safon uchaf.



## ENGHRAIFFT O ARFER DA GAN WENT

Mae gan bob plentyn sy'n derbyn gofal / gofalwr maeth yng Ngwent fynediad at fewnbwn seicolegol / therapiwtig amserol uwchlaw'r mewnbwn a geir mewn gwasanaethau prif ffrwd, trwy'r gwasanaethau a amlinellir isod.

**MyST (My Support Team) – model ymarfer a lywiwyd gan drawma**

Mae MyST yn wasanaeth iechyd meddwl i blant a phobl yn eu harddegau, a gomisiynwyd gan Fwrdd Partneriaeth Gwent ac a ariennir gan Ofal Cymdeithasol, Iechyd ac Addysg. Mae MyST yn gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth a fyddai fel arall yn derbyn gofal mewn cartrefi preswyl i blant, unedau diogel neu unedau cleifion iechyd meddwl. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n ddwys iawn 24/7 gyda phobl ifanc a phawb yn eu hecosystem (gan gynnwys eu teulu, ffrindiau, gofalwyr, yr ysgol/coleg/cyflogwr, rhwydwaith proffesiynol) yn ogystal â chynnig ymgynghoriad (clinig ymarfer a maethu), hyfforddiant ac adnoddau iechyd meddwl.

Mae'r gwasanaeth cofleidiol dwys yn cynnwys cefnogaeth y tu allan i oriau (24/7,365 diwrnod). Gwneir asesiad o anghenion seicolegol y plentyn sy'n llywio ymyriadau. Mae gan MyST yr hyblygrwydd o fod yn greadigol o ran sut maen nhw'n cyflwyno ymyrraeth. Nid oes terfyn amser penodol ar ymyrraeth - adolygir hyn yn rheolaidd o fewn y tîm a gyda'r system oedolion.

Dyma rhai o'r gwerthoedd a'r egwyddorion sy'n sail i waith MyST:

- Fel rheol, mae'n well i bobl ifanc dyfu i fyny mewn teuluoedd a'u cymuned leol yn hytrach nag mewn sefydliadau sydd â thimau staff.
- Gellir deall pob person ifanc yng nghyd-destun eu profiadau, eu hamgylchiadau a'u datblygiad. Mae rhesymeg yn eu cyflwyniad bob amser.
- Mae angen i systemau oedolion o amgylch pobl ifanc fod yn iach ac wedi'u hintegreiddio'n dda er mwyn osgoi gwneud niwed pellach yn anfwriadol trwy'r profiad gofal. Felly mae cyflawni a chynnal hyn yn rhan allweddol o'n gwaith.
- Nid yw'n ddefnyddiol meddwl am bobl ifanc a theuluoedd fel rhai 'nad ydynt yn barod' ar gyfer gwaith seicolegol, ond yn hytrach, dod â dulliau seicolegol i'r man ble maen nhw. Gall pob person ifanc newid o ystyried yr amgylchiadau cywir.
- Fel rheol, mae'n well gweithio gyda phobl ifanc i ddod yn fwy craff, medrus a gwydn wrth reoli heriau eu bywydau yn hytrach na'u tynnu wrthynt.
- Mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth gyda phobl ifanc a theuluoedd fel arbenigwyr yn eu profiadau a'u hanghenion eu hunain.
- Fel rheol mae gan deuluoedd biolegol gyfraniad hanfodol ac unigryw i'w wneud i fywydau pobl ifanc, sydd fel arfer i'w weld ac yn eistedd ochr yn ochr â diogelu.
- Ymlyniadau diogel a chyson, a rhwydwaith iach a gwdyn o oedolion sy'n deulu, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yw'r pethau pwysicaf y gallwn eu darparu i blant sy'n derbyn gofal.
- Mae'r gwaith hwn yn cymryd amser, dyfalbarhad a gwytnwch i wella.

**Gwasanaeth Ymlyniad Gwent – model ymarfer a lywiwyd gan drawma**

- Nod Gwasanaeth Ymlyniad Gwent (GYG) yw cefnogi gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi cael profiadau niweidiol a thrawma cynnar ar draws y rhanbarth a wasanaethir gan BIAAB. Mae'n adnodd hyblyg sy'n cynnig model anuniongyrchol o ymyrraeth trwy hyfforddi a chynyddu sgiliau gweithwyr proffesiynol a staff rheng flaen ar draws Gwent sy'n cefnogi plant o'r fath a'u teuluoedd. Fel rhan o gyflawni'r nodau hyn, mae GYG wedi cynllunio cwrs hyfforddi ymlyniad 6 modiwl i ofalwyr maeth.
- Mae GAS yn cefnogi Gwent i gyflawni'r modiwlau ymlyniad trwy ddadansoddi ffurflenni cyn ac ar ôl gwerthuso, gan alluogi 'mân newidiadau' lleol os oes angen, ynghyd â chyfle i ystyried newidiadau pellach i'r modiwlau er mwyn cynnig gwell cymorth i ofalwyr maeth a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n ymwneud â phlant mewn gofal, fel y deallir eu hanghenion o ran ymlyniad yn well a bod modd o ragweld eu hanghenion cymorth.

Mae ychydig o adborth gan ofalwyr maeth sy'n mynychu'r cyfle dysgu hwn wedi ei nodi isod:


- Dysgu sut mae ymlyniadau'n gweithio, yr effaith y gallant ei chael arnaf fel gofalwr a'r plentyn rydym yn gofalu amdano. Mae yna hefyd wahanol dechnegau i'w defnyddio ar blant o wahanol oed. Mae'n ymwneud â bod yno, yn bresennol ac ar gael i gynnig diogelwch, cariad, bod yn gyfrwng gyfathrebu ac yn elfen gyson yn eu bywyd.
- Fe wnaeth i mi ddeall pam mae'r ymddygiad yn digwydd a beth allwn ni ei wneud yn well i helpu'r unigolyn
- Fe helpodd fi i ddeall pam roedd y plentyn a gefais ar leoliad yn ymddwyn yn y ffordd yr oedd hi. Fe helpodd fi i ymateb yn well i'w hanghenion.

# Caerdydd a Bro Morgannwg

**Adroddiad Rhanbarthol 2018 – 2021**
**Gwblhawyd gan Rob Hinds**

Caerdydd, Bro Morgannwg

Tud. 54



Mae Caerdydd a Bro Morgannwg wedi'u lleoli yng nghornel de-ddwyrain Cymru, ac yn cwmpasu ardaloedd dinesig ac arfordirol. Mae'r ddau ALl yn ymdrin ag ardal fach, sy'n wahanol iawn o ran poblogaeth a demograffeg. Gall y gwahaniaethau hyn effeithio ar anghenion a chyfeiriad pob gwasanaeth. Mae'r Awdurdodau Lleol wedi gweithio gyda'i gilydd i wella cyfleoedd i gydweithio'n rhanbarthol.

Rhennir ôl troed y rhanbarth hwn gan y Bwrdd Iechyd Lleol, y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Mae'r cydweithrediad mabwysiadu Rhanbarthol yn amrywio ar draws yr ardal hon, mae'r Awdurdodau Lleol hyn wedi'u lleoli gyda Gwasanaeth Mabwysiadu'r Fro, Y Cymoedd a Chaerdydd .

Penododd Rhanbarth Caerdydd a Bro Morgannwg Rheolwr Datblygu Rhanbarthol (RhDRh) parhaol ym mis Tachwedd 2019. Ers hynny, mae gwaith wedi mynd rhagddo i adeiladu perthnasoedd cynhyrchiol gyda rheolwyr a staff yn y rhanbarth, RhDRh eraill a Rheolwr Rhaglen y FfMC, gan ddatblygu'r ffrydiau gwaith amrywiol mewn ffordd gydlynol o fewn y rhanbarth ac yn cyfrannu at weithgaredd cenedlaethol.

Mae'r rhanbarth wedi cydweithio mewn perthynas â datblygiadau recriwtio parhaus ac o ganlyniad yr ymgyrchoedd llwyddiannus gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer yr ymholiadau a dderbynnir. Mae'r rhanbarth yn ymdrechu i chwalu chwedlau ynghylch pwy all faethu: er enghraifft pobl sengl, neu bobl o gefndiroedd ethnig neu LHDTC+. Mae cynyddu nifer ac ystod y gofalwyr maeth yn flaenoriaeth gorfforaethol i'r ddau Awdurdod Lleol.

Mae'r rhanbarth wedi ymrwymo i wireddu'r Ymrwymiad Cenedlaethol, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i nodi unrhyw fylchau rhanbarthol mewn perthynas â'r cynigion, ac i gytuno ar adnoddau i lenwi'r bylchau hynny.

Yn unol ag egwyddorion a dyheadau'r FfMC, mae'r rhanbarth yn cymryd dull strategol o ran sicrhau lle bo hynny'n bosibl, bod plant lleol yn cael lleoliadau lleol.

Mae pob Awdurdod Lleol yn pwysleisio'r gwerth a roddir ar eu carfannau priodol o ofalwyr maeth trwy gynnal digwyddiadau "diolch". Ymhlith yr enghreifftiau mae mynediad preifat, unigryw i Wŷl y Gaeaf Caerdydd a bagiau anrhegion fel cydnabyddiaeth i alluogi gofalwyr maeth i deimlo eu bod yn cael eu gwobrwyo a'u gwerthfawrogi.

Mae'r rhanbarth wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y gofalwyr maeth sy'n Bobl Gysylltiedig, ac mae strategaeth glir o ran symud y cydbwysedd gofal. Mae Caerdydd wedi penderfynu gwahanu'r gwasanaeth a ddarperir i ofalwyr sy'n Bobl Gysylltiedig o'r Gwasanaeth Maethu prif ffrwd, a darparu adnoddau priodol i'r ddau dîm i ateb y cynnydd yn y galw.

Mae'r RhDRh wedi sefydlu ac yn arwain ar Grŵp Gweithredol rhanbarthol sy'n cyfarfod yn fisol i ddatblygu ffrydiau gwaith, datblygu cyfleoedd cydweithredol, a rhannu profiadau o ran syniadau ac arfer da. Yn ogystal, mae Grŵp Strategol, sy'n cynnwys y ddau Bennaeth Gwasanaeth, y ddau Reolwr Gweithredol a'r RhDRh, yn cwrdd yn fisol i osod y blaenoriaethau ar gyfer y Grŵp Gweithredol, gweithredu fel math o drefn lywodraethu, a monitro perfformiad ar draws y rhanbarth. Mae'r ddau grŵp wedi mynd rhywfaint o'r ffordd i ddatblygu perthnasoedd a dulliau cydweithio rhanbarthol.

Erbyn hyn, mae'r Fframwaith Perfformiad yn rhan o'r adroddiadau ar berfformiad ar draws Awdurdodau Lleol ac mae'r RhDRh wedi cyfarfod â'r timau perfformiad a Rheolwyr Gweithredol ym mhob Awdurdod Lleol i sicrhau cysondeb o ran dehongli ac ansawdd ledled y rhanbarth. Rhaid nodi bod y ddau Awdurdod Lleol yn defnyddio gwahanol systemau rheoli achosion, ac mae hyn yn gwneud cwblhau a sicrhau ansawdd perfformiad ar draws y rhanbarth yn fwy cymhleth. Mae gwaith wedi cychwyn yn y ddau Awdurdod Lleol i gynhyrchu'r ffurflen ddata yn awtomatig ar draws y ddwy system.

## ENGHRAIFFT O ARFER DA GAN GAERDYDD A BRO MORGANNWG

Mae'r rhanbarth wedi gweithio gyda'i gilydd i adeiladu ar y gwasanaeth cychwynnol a ddatblygwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol. Ym mis Mai 2020 lansiwyd 'Enfys' diolch i'r Bwrdd Iechyd, y Gwasanaeth Addysg, a Chaerdydd a Bro Morgannwg yn cyfuno adnoddau i sicrhau bod y gwasanaethau cymorth mwyaf cadarn ar gael i blant sy'n derbyn gofal ar draws y rhanbarth.

Mae'r tîm yn cynnig cefnogaeth i ofalwyr maeth a'r holl staff sy'n gweithio fel rhan o'r tîm o amgylch y plentyn i sicrhau y cyd-ddeallir anghenion, ymddygiadau a sut i gefnogi pawb i helpu'r plentyn. Maent yn rhoi ffocws sylweddol ar dechnegau therapiwtig i fagu plant, a chynnig cipolwg hanfodol i ymddygiadau a'r ffyrdd gorau i gynorthwyo plant ffynnu.

Mae'r gwasanaeth yn rhoi blaenoriaeth i weithio gyda i blant sydd wedi wynebu trawma o ran eu datblygiad, ac mae'n anelu i'w cefnogi i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus a diogel gydag oedolion.

Mae grŵp 'meithrin ymlyniad' yn rhan o'r gwasanaeth a gynigir gan Enfys. Rhaglen 6 wythnos yw hon i helpu gofalwyr maeth i ddod i ddeall datblygiad plant, pwysigrwydd ymlyniad a sut mae ymlyniad da yn hanfodol i alluogi plant i ddatblygu perthnasoedd iach. Mae'r adborth gan gyfranogwyr wedi bod yn gadarnhaol iawn, gan alluogi gofalwyr maeth i ymarfer yr hyn a ddysgwyd a gwneud y defnydd gorau o dechnegau gan gynnwys PACE.

[Gwasanaethau Cymorth Enfys]





# 6. Y Dyfodol

# Maethu Cymru-Foster Wales yn dod i'r amlwg

**Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf mae'r cyfleoedd a'r posibiliadau sydd ar gael i awdurdodau lleol pan fyddant yn gweithio ar y cyd wedi dod yn gryfach ac yn gliriach. Mae'r gwasanaethau'n falch o arddangos a rhannu arfer da, wrth adeiladu perthnasoedd i atgyfnerthu ac uno dan un nod canolog, i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.**

Cyflawnwyd nodau'r FfMC yn rhannol neu'n gyfan gwbl, a'r cydweithrediad newydd sy'n bwrw ymlaen â'r gwaith uchelgeisiol hwn, sy'n canolbwyntio ar wasanaethau maethu awdurdodau lleol, yw Maethu Cymru - Foster Wales.

Mae Maethu Cymru yn gynnyrch cydweithio, ymgynghori a phrofi helaeth gan awdurdodau lleol Cymru. Mae pob un o'r 22 ALl yng Nghymru yn falch o'i weld yn cael ei wireddu ac maent yn ymdrechu i gydweithio i gyflawni ei nodau cyfredol, sydd yn cynnwys:

- Cydlynu marchnata a recriwtio gofal maeth yn genedlaethol a lleol
- Rheoli a defnyddio'r fframwaith Rheoli Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer maethu
- Cydlynu mentrau cadw cenedlaethol fel yr Ymrwymiad Cenedlaethol
- Mentrau gwella'r gweithlu cenedlaethol fel Dysgu a Datblygu gofalwyr maeth
- Gwaith parhaus mewn perthynas â chysoni taliadau gofalwyr maeth
- Hyrwyddo safonau arfer gorau a gwella ansawdd ar draws y sector



Argymhellwyd yn ystod Cam Dau y FfMC y gallai fod yn briodol cyflawni ei swyddogaethau cenedlaethol neu swyddogaethau cydlynu trwy berthynas waith agos â thîm canolog presennol Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol (GMC). Bu cysylltiadau cynyddol rhwng y gwaith a wnaed gan y ddau sefydliad, y ddau wedi'u seilio'n gryf ar lywodraeth leol. Ers hynny, mae Cyfarwyddwr GMC a'r tîm canolog wedi darparu arweinyddiaeth, cefnogaeth strategol a galluogi gwaith y FfMC a Maethu Cymru wrth iddo ddod i'r amlwg.

Datblygwyd y cynigion hyn ymhellach a bydd Maethu Cymru yn cael ei arwain trwy gydweithrediad newydd gan y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Maethu Cymru dan arweiniad y cyfarwyddwr presennol Suzanne Griffiths.

Bydd Maethu Cymru hefyd yn cael ei gefnogi gan staff ychwanegol ar lefel genedlaethol a rhanbarthol. Mae hyn yn cynnwys Rheolwr Marchnata Cenedlaethol a Phennaeth Cenedlaethol Maethu Cymru. Ar lefel ranbarthol bydd Swyddogion Marchnata Rhanbarthol yn ymuno â'r Rheolwyr Datblygu Rhanbarthol.

| **Rheolwr Marchnata Cenedlaethol** | |
|---|---|
| Jill Jones | Mae Jill yn swyddog marchnata gwasanaeth maethu profiadol ar ôl bod yn y rôl hon gyda Sir y Fflint am nifer o flynyddoedd ac yna'n ymgymryd â rôl Swyddog Marchnata Rhanbarthol Gogledd Cymru cyn cael ei phenodi i'r swydd genedlaethol. |

| **Swyddogion Marchnata Rhanbarthol (SMRh)** | |
|---|---|
| Mae pob rhanbarth wedi penodi swyddog marchnata i oruchwylio cydgysylltu a darparu'r holl weithgareddau marchnata, deunyddiau ac ymgyrchoedd ar draws y 6 rhanbarth.<br><br>Mae'r SMRh yn gweithio'n agos gyda'r holl dimau cyfathrebu, marchnata a recriwtio ym mhob Awdurdod Lleol i ddod â'r gweithgaredd recriwtio yn fyw, diweddaru deunyddiau marchnata presennol, datblygu gwefannau maethu pwrpasol newydd ar gyfer pob awdurdod lleol, a chreu ymgyrchoedd marchnata a recriwtio lleol a rhanbarthol newydd gan ddefnyddio'r brand newydd. | |
| Gogledd Cymru | Jill Jones (Sir y Flint) |
| Canolbarth a Gorllewin Cymru | Angie Moore (Sir Penfro) |
| Gorllewin Morgannwg | Jenny Owen (Abertawe) |
| Cwm Taf Morgannwg | Rachel Crosby (Rhondda Cynon Taf) |
| Gwent | Amy Battrick (Blaenau Gwent) |
| Caerdydd a Bro Morgannwg | Amy McArdle (Bro Morgannwg) |

Lansiwyd Maethu Cymru ym mis Gorffennaf 2021 gyda chefnogaeth y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol Julie Morgan AS yn croesawu Sally, gofalwr maeth, i'w gardd am 'baned a sgwrs' am fanteision maethu gyda'i hawdurdod lleol. Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn falch o'r cyflawniad o ran gwireddu Maethu Cymru a gwerthfawrogi'r gefnogaeth a ddarperir gan Weinidogion a Llywodraeth Cymru. Rydym yn edrych ymlaen at gyflawni ein huchelgeisiau ar gyfer Maethu Cymru trwy weithio gyda'n gilydd i adeiladu dyfodol gwell i blant lleol.

Ewch i'n gwefan i ddarganfod mwy
[maethucymru.llyw.cymru](https://maethucymru.llyw.cymru)







